Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft

Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth

Cynllun Datblygu Lleol
Sir Gaerfyrddin

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

1. RHAGYMADRODD

1.1 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol yn darparu rhagor o fanylion ac arweiniad ynglŷn â pholisïau a chynigion mewn cynllun datblygu sydd wedi'i fabwysiadu, er nad ydyn nhw eu hunain yn rhai o'r cynllun datblygu statudol. Rhaid i Ganllawiau Cynllunio Atodol gyd-fynd â pholisïau cynllunio cenedlaethol, yn ogystal â'r polisïau sydd yn y cynllun datblygu.

1.2 Mae'r canllawiau hyn yn un o nifer o ddogfennau o'r fath sydd wedi'u paratoi gan Gyngor Sir Caerfyrddin ('y Cyngor') yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu Lleol ac yn unol â pholisïau cenedlaethol. Unwaith y'u mabwysiadir bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau ac apeliadau cynllunio o fewn Sir Gaerfyrddin (ar wahân i'r ardal honno sy'n rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog).

1.3 Mae'r Cyngor yn cydnabod y cyfraniad pwysig y gall cynllunio ei wneud i gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth yn y Sir, yn cynnwys cynefinoedd a rhywogaethau o bwys rhyngwladol, cenedlaethol a lleol. Mae hefyd yn cydnabod bod i gadw a chyfoethogi bioamrywiaeth ran annatod mewn datblygu cynaliadwy a bod bioamrywiaeth yn sylfaenol bwysig i les trigolion Sir Gaerfyrddin. Cydnabyddir bod datblygu ein hardaloedd trefol a gwledig yn gallu achosi effeithiau sylweddol gan arwain at ostyngiad mewn bioamrywiaeth. Cydnabyddir hefyd fod datblygu'n gallu cael effaith gadarnhaol lle'r ymgorfforir nodweddion i reoli, adfer a chyfoethogi cynefinoedd a rhywogaethau.

1.4 Nod y canllawiau hyn yw sicrhau bod darpariaethau polisi cenedlaethol a darpariaethau'r CDLl yn cael eu cyflawni ar lefel leol a bod y wybodaeth gywir, sy'n dilyn y canllawiau ymarfer gorau, yn cael ei chyflwyno gyda cheisiadau cynllunio. Nid dim ond gyda cheisiadau cynllunio y mae angen gwybodaeth am fioamrywiaeth. Gall fod yn ofynnol hefyd gyda cheisiadau am ganiatâd Adeilad Rhestredig, caniatâd Gorchymyn Cadw Coed, caniatâd Ardal Gadwraeth, Hysbysiadau Dymchwel etc.

1.5 Bydd y canllawiau hyn yn helpu datblygwyr i nodi'r potensial i brosiectau a chynigion effeithio ar fioamrywiaeth. Byddant hefyd yn hysbysu swyddogion cynllunio ac ecolegwyr am y lefel o wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn asesu'n ddigonol pa effaith a gâi cynnig datblygu ar fuddiannau bioamrywiaeth.

1.6 Dylid rhoi sylw i gynnwys y canllawiau hyn o gamau cynharaf y broses ddatblygu, yn cynnwys unrhyw bryniant, trafodaethau, ac wrth baratoi cynlluniau datblygu.

1.7 Wrth ddefnyddio'r canllawiau hyn mae'r cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i sicrhau bod ei gynnig yn cyd-fynd â darpariaethau deddfwriaethol ac â darpariaethau'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol a'r CDLl. Yn y cyswllt hwn, dylid rhoi sylw dyledus i'r potensial i ddiweddaru polisi ac o ran hynny mae'r canllawiau'n cael eu hystyried yn gywir adeg eu hysgrifennu.

1.8 Mae'r canllawiau hefyd yn nodi'r fframwaith a'r fethodoleg ar gyfer dynodi Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur yn Sir Gaerfyrddin.

2. Y CYD-DESTUN DEDDFWRIAETHOL

Deddfwriaeth Allweddol

2.1 Isod nodir rhai o'r darnau allweddol o ddeddfwriaeth yn ymwneud â bioamrywiaeth a chadwraeth natur sy'n berthnasol i'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn:

2.2 **Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd):** Mae'r Rheoliadau'n gweithredu Cyfarwyddeb 92/43/EEC y Cyngor ar warchod cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt (Cyfarwyddeb Cynefinoedd CE). Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer dynodi ac amddiffyn 'Safleoedd Ewropeaidd (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig)', amddiffyn 'rhywogaethau a warchodir gan Ewrop', ac addasu rheolau cynllunio a mesurau rheoli eraill er mwyn amddiffyn Safleoedd Ewropeaidd. Amcan pellach yw cadw, cynnal ac ailsefydlu amrywiaeth digonol ac arwynebedd digonol o gynefin ar gyfer adar gwyllt yn y Deyrnas Unedig ac osgoi unrhyw lygredd neu ddirywiad yng nghynefinoedd adar gwyllt wrth weithredu pob swyddogaeth berthnasol.

2.3 **Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006:** Mae adran 40 o'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr i ystyried y diben o warchod bioamrywiaeth wrth iddynt gyflawni'u swyddogaethau. Diben allweddol yn y ddyletswydd hon yw gwreiddio ystyried bioamrywiaeth yn rhan annatod o bolisi a gwneud penderfyniadau ledled y sector cyhoeddus. Mae Adran 42 o'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth y Cynulliad i gyhoeddi rhestr o organebau byw a mathau o gynefinoedd pwysig iawn i'r diben o warchod bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae dyletswydd arni hefyd i gymryd, a hyrwyddo eraill i gymryd, camau ymarferol o fewn rheswm i hyrwyddo'u cadwraeth. Caiff y Ddeddf ei disodli gan Fil yr Amgylchedd pan gaiff hwnnw Gydsyniad Brenhinol.

2.4 **Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999** – o dan y Rheoliadau mae'n ofynnol cynnal asesiad o effaith amgylcheddol rhai mathau o brosiectau cyn y gellir penderfynu ar ganiatâd cynllunio.

2.5 **Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981**: Mae'r Ddeddf yn ymdrin ag amddiffyn bywyd gwyllt (adar, a rhai anifeiliaid a phlanhigion), cefn gwlad, atal lledaeniad rhai rhywogaethau goresgynnol a dynodi ardaloedd gwarchodedig yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) sy'n cael eu nodi am eu fflora, ffawna, nodweddion daearegol neu ffisiograffigol.

2.6 **Cyfarwyddeb yr EU ar Warchod Adar Gwyllt (1979):** Mae'r gyfarwyddeb yn creu cynllun amddiffyn cynhwysfawr i bob rhywogaeth o adar gwyllt sy'n digwydd yn naturiol yn yr UE. Fe'i mabwysiadwyd mewn ymateb i bryder cynyddol am y dirywiad ym mhoblogaethau adar gwyllt Ewrop oherwydd llygredd a cholli cynefinoedd yn ogystal â defnydd anghynaliadwy.

2.7 Mae'r gyfarwyddeb yn cydnabod mai colli a diraddio cynefinoedd yw'r bygythiadau mwyaf difrifol i gadwraeth adar gwyllt. Felly, mae'n rhoi pwyslais mawr ar amddiffyn cynefinoedd rhywogaethau mewn perygl yn ogystal â rhywogaethau mudol, yn arbennig drwy sefydlu rhwydwaith o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) sy'n cynnwys yr holl diriogaethau mwyaf addas ar gyfer y rhywogaethau hyn.

2.8 **Y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000):** Mae'r ddeddf yn darparu ar gyfer mynediad ar droed i'r cyhoedd i rai mathau o dir, yn diwygio'r gyfraith mewn perthynas â hawliau tramwy cyhoeddus, yn cynyddu'r amddiffyniad i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac yn cryfhau'r ddeddfwriaeth gorfodi yn

ymwneud â bywyd gwyllt, ac yn darparu ar gyfer rheoli Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn well.

2.9 Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu mesurau diogelu sy'n ystyried anghenion perchenogion a meddianwyr tir, ac anghenion buddiannau eraill, yn cynnwys bywyd gwyllt.

2.10 Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i hyrwyddo cadw a chyfoethogi SoDdGA, ac yn cynyddu'r cosbau y gellir eu pennu pan roddir euogfarn am dorri'r darpariaethau. Mae'n creu trosedd newydd sy'n golygu y gellir euogfarnu trydydd partïon am ddifrodi SoDdGA.

2.11 **Deddf Gwarchod Moch Daear 1992:** Y Ddeddf yw'r prif gyfrwng i warchod moch daear rhag bygythiadau penodol yn gysylltiedig â chloddio a baetio, gan amddiffyn moch daear a'u deyerydd.

2.12 **Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr:** Daeth hon i rym ym mis Rhagfyr 2000 a daeth yn rhan o gyfraith y Deyrnas Unedig ym mis Rhagfyr 2003. Mae'n berthnasol i bob corff dŵr croyw wyneb (yn cynnwys llynnoedd, afonydd a nentydd), dŵr daear ac ecosystemau sy'n ddibynnol ar ddŵr daear, morydau a dyfroedd arfordirol hyd at un filltir allan o'r distyll. Nod y Gyfarwyddeb yw gwella iechyd ecolegol dyfroedd mewndirol ac arfordirol ac atal dirywio pellach. Y nod drwyddi draw yw i bob corff dŵr mewndirol ac arfordirol gyrraedd statws ecolegol "da" o leiaf erbyn 2015.

2.13 **Gorchmynion Cadw Coed:** Mae'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer Gorchmynion Cadw Coed wedi'i gynnwys yn **Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**, a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999. O dan ddarpariaethau'r Ddeddf mae nifer o Orchmynion Cadw Coed wedi'u gwneud i amddiffyn coed penodol, grwpiau o goed a choetiroedd ar draws y Sir. Diben gorchymyn yw amddiffyn coed sy'n cael effaith sylweddol ar eu hamgylchedd. Yn gyffredinol mae Gorchymyn Cadw Coed yn ei gwneud yn drosedd torri, brigdorri, tocio, dadwreiddio, difrodi coed yn fwriadol neu'u dinistrio'n fwriadol heb ganiatâd yr awdurdod cynllunio. Mae hyn yn neilltuol o bwysig lle mae coed mewn perygl ar y pryd. Mae yna ddarpariaethau arbennig hefyd mewn perthynas â choed mewn ardaloedd cadwraeth sydd wedi'u dynodi gan awdurdodau cynllunio lleol.

2.14 Cydnabyddir bod coed yn ased naturiol pwysig sy'n cyfrannu llawer at ansawdd ein hamgylchedd trefol a gwledig. Yn ogystal â'u hamwynder gweledol, mae coed yn hidlo sŵn, golau a llwch ac yn chwarae rhan hanfodol yn y system ecolegol.

2.15 **Rheoliadau Perthi 1997:** Daeth y rheoliadau hyn i rym i warchod perthi pwysig yng nghefn gwlad, yn arbennig berthi sy'n fwy nag 20 metr o hyd neu'r rhai sy'n cwrdd â pherth arall ar y naill ben neu'r llall. Dylid nodi bod perthi sy'n ffurfio cwrtil annedd yn cael eu heithrio.

2.16 Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn rhoi'r dyletswyddau canlynol ar gyrff cyhoeddus:

Rhaid i bob corff cyhoeddus gyflawni datblygu cynaliadwy. Rhaid i'r camau y mae corff cyhoeddus yn eu cymryd wrth gyflawni datblygu cynaliadwy gynnwys:

a. gosod a chyhoeddi amcanion ("amcanion llesiant") sydd wedi'u bwriadu i sicrhau bod y datblygiad yn cyfrannu cymaint â phosibl tuag at gyflawni pob un o'r nodau llesiant, a
b. cymryd pob cam rhesymol (wrth arfer ei swyddogaethau) i wireddu'r amcanion hynny.

2.17 Wrth gyflawni'r uchod, mae saith nod wedi'u pennu ac yn arbennig y nod o wireddu:

2.18 *Cymru Gydnerth*: Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd.

2.19 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cydgysylltu â'r Ddeddf Gynllunio a Bil yr Amgylchedd i lunio rhan o fframwaith deddfwriaethol integredig er gwireddu datblygu cynaliadwy. Yn y cyswllt hwn mae'n cysylltu sut rydyn ni'n rheoli'r defnydd a wneir o'n tir â sut rydyn ni'n rheoli ein hadnoddau naturiol.

2.20 Nod y bil arfaethedig, Bil yr Amgylchedd (Cymru), yw darparu ar gyfer rheoli'r amgylchedd a gwarchod adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy integredig. Bydd yn cyflwyno dyletswydd Bioamrywiaeth newydd, gryfach, ar awdurdodau lleol i gynnal a chynyddu bioamrywiaeth a hyrwyddo cyfnerthedd ecosystemau.

3. Y CYD-DESTUN POLISI CYNLLUNIO

Y Cyd-destun Polisi Cenedlaethol

3.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7, 2014) yn nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru, ac ychwanegir ato gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TAN). Rhoddir cyngor gweithdrefnol mewn cylchlythyron a llythyron egluro polisi. Ceir arweiniad ynglŷn â gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ym Mhennod 5 Polisi Cynllunio Cymru ac yn TAN 5, Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009). Mae'r cyntaf yn nodi'r amcanion canlynol o ran gwarchod a gwella'r dreftadaeth naturiol:

- hyrwyddo cadwraeth y dirwedd a bioamrywiaeth, yn enwedig gwarchod bywyd gwyllt a chynefinoedd brodorol;
- sicrhau bod gweithredu yng Nghymru yn cyfrannu at fodloni cyfrifoldebau a rhwymedigaethau rhyngwladol o ran yr amgylchedd naturiol;
- sicrhau bod safleoedd sydd â dynodiad statudol yn cael eu gwarchod a'u rheoli'n briodol;
- diogelu rhywogaethau a warchodir; a
- hyrwyddo swyddogaethau a manteision priddoedd, ac yn arbennig eu swyddogaeth fel storfeydd carbon.

3.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn darparu canllawiau sy'n berthnasol o ran cymhwyso a dehongli'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn.

- Dywed paragraff 5.1.3, "Un o rolau allweddol y system gynllunio yw sicrhau y caiff anghenion tir y gymdeithas eu bodloni mewn ffyrdd nad ydynt yn gosod cyfyngiadau diangen ar ddatblygu, gan ofalu y cymerir pob cam rhesymol i ddiogelu neu wella'r amgylchedd. Fodd bynnag, gall cadwraeth a datblygu, yn aml iawn, gael eu hintegreiddio'n llwyr. Drwy gynllunio a dylunio'n ofalus, gellir lleihau'r posibiliadau o wrthdaro a gellir hefyd greu cyfleoedd newydd ar gyfer datblygu cynaliadwy".

- Dywed paragraff 5.2.8, "Mae rhan bwysig i'r system gynllunio o ran bodloni amcanion bioamrywiaeth trwy hybu dulliau datblygu sy'n creu cyfleoedd newydd i wella bioamrywiaeth, rhwystro colli bioamrywiaeth, neu ddigolledu lle na ellir osgoi difrod... Er mwyn ystyried anghenion bioamrywiaeth o ran ymaddasu gellid, ymhlith pethau eraill, nodi faint o gyfle sydd i gwtogi i'r eithaf ar ddarnio cynefinoedd, neu adfer y sefyllfa mewn mannau lle mae hynny eisoes wedi digwydd, a gwella'r cysylltiad rhwng cynefinoedd drwy hyrwyddo coridorau bywyd gwyllt. Dylai awdurdodau cynllunio lleol sicrhau y ceir cyn lleied o effaith â phosibl mewn ardaloedd sydd wedi'u nodi yn ardaloedd pwysig i alluogi rhywogaethau i ymaddasu a/neu symud i gynefinoedd mwy addas".

- Dywed paragraff 5.3.9, "Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y cyflawnir y cyfrifoldebau a'r rhwymedigaethau rhyngwladol ar gyfer cadwraeth yn llawn, ac y caiff safleoedd sydd â dynodiad statudol eu gwarchod rhag difrod a dirywiad, yn unol ag amcanion y dynodiad, ac y cedwir eu nodweddion pwysig drwy reoli priodol."

- Dywed paragraff 5.5.3, "Mewn rhai achosion bydd angen gwrthod caniatâd cynllunio am resymau cadwraeth. Fodd bynnag, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried bob amser a ellid ymdrin yn ddigonol â'r ystyriaethau amgylcheddol drwy addasu'r cynnig datblygu neu drwy roi amodau neu rwymedigaethau cynllunio priodol arno. Dim ond pan na fo hyn yn bosibl a phan fo'r effaith

andwyol ar yr amgylchedd yn drech nag ystyriaethau perthnasol eraill y dylid gwrthod y datblygiad".

3.3 Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn cynnwys gofynion pellach ynglŷn â cheisio "diogelu coed, grwpiau o goed ac ardaloedd o goetir sy'n werthfawr o ran treftadaeth naturiol neu sy'n cyfrannu at gymeriad neu amwynder lleoliad penodol".

3.5 Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5 – Cynllunio a Chadwraeth Natur yn rhoi cyngor pellach a manylion ar sut y dylai'r system gynllunio defnydd tir gyfrannu at y gwaith o ddiogelu a gwella bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol. Mae'r TAN yn cyfuno cyngor ynglŷn â ffynonellau deddfwriaeth sy'n berthnasol i wahanol bynciau cadwraeth natur y gallai awdurdodau cynllunio lleol eu hwynebu.

Y Cyd-destun Polisi Lleol

3.6 Y CDLl yw'r cynllun datblygu statudol i ardal y Cynllun ac ef sy'n darparu'r fframwaith polisi lleol y caiff cynigion datblygu eu hystyried yn ei erbyn. Mae pwysigrwydd yr amgylchedd naturiol yn thema ganolog yn y CDLl ac yn rhedeg drwodd o Weledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun i'r polisïau strategol a phenodol. Roedd ei bwysigrwydd a'r effeithiau posibl hefyd yn ystyriaeth graidd wrth nodi safleoedd/dyraniadau posibl ac wrth gynnal yr adolygiad aneddiadau yn ystod y gwaith o lunio'r Cynllun. Cyflawnwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Arfarniad Cynaliadwyedd i gyfrannu at y CDLl a'i gefnogi.

3.7 Nid yw'r CDLl yn ailadrodd datganiadau polisi cenedlaethol. Bydd y Cyngor felly yn defnyddio deddfwriaeth (yn cynnwys deddfwriaeth Ewropeaidd a chenedlaethol) a pholisi cenedlaethol i helpu i benderfynu ar gynigion datblygu sydd â photensial i effeithio ar safleoedd sydd â dynodiad rhyngwladol neu genedlaethol a rhywogaethau gwarchodedig.

3.8 Nodir polisïau perthnasol y CDLl isod:

3.9 Mae Polisi Strategol SP14 Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol yn nodi'r gofyniad i ddatblygiadau adlewyrchu'r angen i warchod a, lle bynnag y bo modd, gwella amgylchedd naturiol y sir. Mae hefyd yn nodi'r angen i gynigion gael eu hystyried yn unol â chanllawiau/deddfwriaeth a pholisïau perthnasol.

3.10 Mae Polisi EQ4 Bioamrywiaeth yn ceisio sicrhau y bydd y cynefinoedd a'r rhywogaethau a nodir yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn cael eu gwella a'u gwarchod mewn modd addas rhag datblygiadau amhriodol ac na fydd cynigion datblygu'n cael effaith andwyol arnynt. Wrth benderfynu ar unrhyw gynnig rhoddir sylw i'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a, lle bo'n briodol, y lefel angenrheidiol o liniaru ac ati, os a phan fydd angen hynny. Defnyddir Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 - Rhestr Adran 42 o Rywogaethau a Chynefinoedd Pwysig Iawn er mwyn Gwarchod Amrywiaeth Fiolegol yng Nghymru wrth weithredu'r polisi hwn, ynghyd ag unrhyw welliannau'r i'r dyfodol y manylir arnynt ym Mil yr Amgylchedd (Cymru), pan gaiff gydsyniad brenhinol. . Bydd rôl cynefinoedd a mannau cysylltiedig fel llwybrau cysylltedd, 'rhwydweithiau ecolegol' neu 'rwydweithiau coridorau anifeiliaid' yn cael ei hystyried lle bo'n berthnasol (dylid rhoi sylw i Bolisi EQ5 isod).

3.11 Mae Polisi EQ5 Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion o Natur Unigryw yn adlewyrchu'r cyfraniad y mae nodweddion llinol neu ddi-dor neu elfennau annibynnol yn ei wneud i'r amgylchedd a'i gymeriad arbennig. Mae'r polisi'n ceisio gwarchod amrywiaeth eang o'r nodweddion hyn, sydd yn werthfawr nid yn unig yn weledol a

thrwy eu cyfraniad i'r amgylchedd ond sydd hefyd yn chwarae rôl bwysig yn gwarchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth.

3.12 Mae nodweddion o'r fath, er mai anaml y rhoddir amddiffyniad statudol iddynt, yn cyfrannu'n sylweddol at amrywiaeth tirweddau Sir Gaerfyrddin, ei chymunedau a'i bioamrywiaeth cyfoethog. Rhestrir nodweddion sy'n cyfrannu at hyn ym mharagraff 6.6.32 o'r CDLl, ac mae'r polisi'n annog cynigion i helpu i'w cadw, eu rheoli a'u datblygu. Mae hyn yn cydnabod eu pwysigrwydd fel llwybrau cysylltedd ar gyfer gwasgaru, mudo a chyfnewid genetig.

3.13 Mae Polisi EQ3 Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol yn darparu ar gyfer diogelu Gwarchodfeydd Natur Lleol a Safleoedd Daearegol/Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol gan adlewyrchu'u pwysigrwydd leol o ran cadwraeth natur a'u gwerth daearegol. Mae'r polisi hwn hefyd yn darparu ar gyfer dynodi safleoedd lleol a rhanbarthol o'r fath. Yn y cyswllt hwn mae'r testun ategol yn cyfeirio'n benodol at botensial sylweddol Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur fel adnodd bioamrywiaeth. Er na chyfeirir yn benodol atynt ym Mholisi EQ3 (gan nad oes dynodiadau o'r fath wedi'u sefydlu) mae'r CDLl yn darparu ar gyfer eu dynodi yn y dyfodol fel rhan o Ganllawiau Cynllunio Atodol. Yn y cyswllt hwn cyfeirir at Adran 6 o'r canllawiau hyn.

3.14 Cyfeirir hefyd at ddarpariaethau Polisi EQ7 mewn perthynas ag Ardal Caeau Mynydd Mawr a darpariaethau'r Canllawiau Cynllunio Atodol sydd wedi'u mabwysiadu mewn cysylltiad â hynny. Gellir bwrw ymlaen â datblygiadau o fewn Ardal Canllawiau Cynllunio Atodol Caeau Mynydd Mawr ar yr amod na fydd effaith arwyddocaol debygol ddangosadwy ar Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau Mynydd Mawr (ACA CMM). I'r perwyl hwn, bydd y Cyngor (lle mae'n briodol) yn ceisio cyfraniadau gan ddatblygwyr yn unol â darpariaethau Canllawiau Cynllunio Atodol Caeau Mynydd Mawr. Mae Ardal Canllawiau Cynllunio Atodol Caeau Mynydd Mawr wedi'i dangos ar fap cynigion y CDLl.

3.15 Mae Polisi GP1: Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Da yn nodi amryw o ofynion dylunio allweddol i gynigion datblygu, yn cynnwys nifer sy'n ymwneud yn uniongyrchol â bioamrywiaeth ac yn berthnasol iddo. Nodir y potensial ar gyfer Rhwymedigaethau Cynllunio ym Mholisi GP3 gan gydnabod y potensial i geisio cyfraniadau ar gyfer ecoleg, yn cynnwys y rhwymedigaethau sy'n cael eu ceisio ar hyn o bryd mewn perthynas â Chaeau Mynydd Mawr.

3.16 Mae Polisi EP1: Ansawdd ac Adnoddau Dŵr yn nodi'r gofyniad i ddiogelu cyrsiau dŵr drwy glustogfeydd a choridorau ecolegol/bioamrywiaeth i ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau glannau afon, ansawdd dŵr a chapasiti gorlifdiroedd.

3.17 Mae'r polisïau uchod wedi'u nodi yn Atodiad 2 at y canllawiau hyn.

3.18 Cyfeirir hefyd at yr angen i roi sylw i gadwraeth natur, bioamrywiaeth ac effeithiau amgylcheddol mewn nifer o bolisïau yn ymwneud â datblygiadau penodol, yn cynnwys: Polisi H4 Anheddau Cyfnewid, RE1 Ynni Gwynt ar Raddfa Fawr, RE2 Ffermydd Gwynt Lleol, Cymunedol a Bach, RE3 Gosodiadau Ynni Adnewyddadwy Heblaw Gwynt, MPP1 – Cynigion Mwynau, MPP6, Chwilio Anghonfensiynol am Nwy ac Echdynnu Anghonfensiynol, MPP7 Adferiad ac Ôl-ofal Safleoedd Mwynau, WPP2 Cyfleusterau Rheoli Gwastraff y tu allan i Derfynau Datblygu.

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol

3.19 Cafodd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin ei gynhyrchu gan bartneriaeth o sefydliadau sy'n ymwneud â chadw bioamrywiaeth y Sir. Yn unol â'r

canllawiau cenedlaethol, nod bras cynllun Sir Gaerfyrddin yw cadw a gwella bioamrywiaeth yn Sir Gaerfyrddin drwy gyfrwng partneriaethau lleol, gan ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae amcanion bras Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn:

- Gwarchod a gwella bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin drwy lunio a gweithredu cynlluniau gweithredu unigol, gan gwmpasu amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau dethol sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau cenedlaethol a lleol;
- Datblygu partneriaethau lleol effeithiol er mwyn cydgysylltu a chyflawni'r camau gweithredu ynghylch bioamrywiaeth yn Sir Gaerfyrddin;
- Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd gwarchod a gwella bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin; a,
- Monitro'r cynnydd o ran cyrraedd y targedau bioamrywiaeth lleol, a rhoi gwybodaeth am y cynnydd hwnnw i gronfa ddata genedlaethol ar fioamrywiaeth.

3.20 Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn cynnwys cyfres o gynlluniau gweithredu sy'n cwmpasu rhywogaethau a chynefinoedd sydd dan fygythiad neu'n dirywio yn y Sir, yn ogystal â rhywogaethau a chynefinoedd sy'n destun pryder yn lleol. Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn canolbwyntio ar weithredu lleol sy'n cyrraedd yr amcanion ar gyfer pob cynefin a rhywogaeth yn y Cynllun.

3.21 Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC) wedi llunio naw grŵp cynefin a chytunwyd y bydd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin yn cadw at y grwpiau hyn. Y grwpiau yw:

Coetir, Cynefinoedd yr Ucheldir,
Dŵr Croyw, Gwlyptir,
Tir Fferm,
Rhostir a Glaswelltir yr Iseldir,
Dinesig a Thir Llwyd, ac
Arfordirol a Morol.

3.22 Cafodd rhywogaethau eu rhoi mewn grwpiau gyda chynefinoedd cyn belled ag sy'n bosibl gan mai drwy rheoli cynefin yn aml y gwellir gweithredu'n bennaf i gadw rhywogaethau. Fodd bynnag, bydd i nifer o rywogaethau eu cynllun gweithredu unigol eu hunain.
http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/eich-cymuned/bioamrywiaeth/cynlluniau-gweithredu-ar-gyfer-rhywogaethau-a-chynefinoedd/#.VkNcqL95Juo

4. SAFLEOEDD A CHYNEFINOEDD DYNODEDIG

4.1 Mae gan y sir amryw o safleoedd dynodedig a chynefinoedd eraill sy'n adlewyrchu'r cyfoeth diddordeb sydd gan yr ardal i'w gynnig o ran bioamrywiaeth; nodir y safleoedd dynodedig ar fap cynigion y CDLl a chânt eu gwarchod gan ddeddfwriaeth. Caiff cynefinoedd eraill eu gwarchod un ai gan ddeddfwriaeth a/neu bolisïau perthnasol y Cynllun.

SAFLEOEDD

Dynodiadau Rhyngwladol		
Dynodiad	**Deddfwriaeth a Pholisi**	**Diben**
7 Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)	Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd)	Mae'r ardaloedd hyn, a grëwyd o dan gyfarwyddeb yr UE ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion ac Anifeiliaid (y 'Gyfarwyddeb Cynefinoedd'), o bwys Ewropeaidd.
3 Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA)		Mae'r ardaloedd hyn, a grëwyd o dan gyfarwyddeb yr UE ar Warchod Adar Gwyllt (y 'Gyfarwyddeb Adar'), o bwys Ewropeaidd.
1 safle Ramsar		Mae'r safleoedd hyn, sydd wedi'u dynodi o dan y Confensiwn ar Wlyptiroedd o Bwys Rhyngwladol, yn safleoedd gwlyptir pwysig sy'n diogelu cynefin adar dŵr.
Gyda'i gilydd caiff safleoedd ACA ac AGA eu galw'n safleoedd Natura 2000 (neu'n safleoedd Ewropeaidd). Efallai fod iddynt statws blaenorol fel SoDdGA, efallai ddim. Ni chaiff yr awdurdod cynllunio gymeradwyo datblygiadau y bernir eu bod yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar amcanion cadwraeth safle heb i'r awdurdod cynllunio gynnal 'asesiad priodol'.		

4.2 Mae'r safleoedd uchod â dynodiad rhyngwladol wedi'u rhestru yn Atodiad 1 at y canllawiau hyn.

4.3 Dylid nodi bod y CDLl wedi bod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel y cynllun. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y gallai fod angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect/cais cynllunio.

4.4 Lle nodir bod angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, bydd y Cyngor yn gweithredu fesul cam i benderfynu a yw prosiect yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd ai peidio. Rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol asesu goblygiadau datblygiad i safle Natura 2000 cyn cymeradwyo unrhyw gynllun neu brosiect drwy sgrinio'r cynigion drwy Brawf Effaith Arwyddocaol Debygol. Os yw'r cynigion yn debygol o gael effaith arwyddocaol efallai y bydd yn rhaid cynnal Asesiad Priodol. Bydd 'Asesiad Priodol' yn ofynnol lle mae prosiect yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd un ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill. O dan y Rheoliadau Cynefinoedd, gall yr awdurdod cynllunio fynnu bod yr ymgeisydd yn darparu'r gyfryw wybodaeth ag y mae ei hangen arno o fewn rheswm i benderfynu ar y cwestiwn hwnnw; a lle mae awdurdod cynllunio yn penderfynu bod asesiad priodol yn angenrheidiol, gall fynnu bod yr ymgeisydd yn darparu'r gyfryw wybodaeth ag y mae ei hangen arno o fewn rheswm at ddibenion yr asesiad hwnnw. Gall y gofyniad hwn godi yng nghyswllt ceisiadau am ddatblygiadau sy'n ffinio â chlustogfa safle o'r fath neu o fewn clustogfa, lle gallent effeithio'n anuniongyrchol ar y safle. Gellir cael canllawiau ar y broses hon ym mhenodau 4.4, 5.3 ac Atodiad 3 o TAN 5. Argymhellir ymgynghori'n gynnar â'r Awdurdod Cynllunio

Lleol i benderfynu pa lefel o wybodaeth fydd yn ofynnol yn gysylltiedig â chais lle rhagwelir effeithiau arwyddocaol tebygol.

4.5 Efallai na fydd angen arolwg ac asesiad llawn lle gall yr ymgeisydd darparu copïau o ohebiaeth cyn ymgeisio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, lle mae'r olaf yn cadarnhau yn ysgrifenedig ei fod yn fodlon na fydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar unrhyw safleoedd statudol a ddynodwyd oherwydd eu pwysigrwydd cenedlaethol neu ryngwladol.

Dynodiadau Cenedlaethol		
Dynodiad	**Deddfwriaeth a Pholisi**	**Diben**
82 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)	Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)	Safleoedd sy'n arbennig oherwydd eu fflora a'u ffawna, eu creigiau neu dirffurfiau neu gyfuniad o'r nodweddion hyn. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol o dan adran 28I o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o unrhyw ddatblygiad a allai effeithio ar SoDdGA cyn gwneud ei benderfyniad. Mae'r gofyniad hwn yn sefyll pa un y byddai'r gweithrediad yn digwydd ar dir o fewn SoDdGA ai peidio. Rhaid i'r awdurdod cynllunio ystyried unrhyw gyngor gan CNC wrth benderfynu pa un i ganiatáu'r gweithrediadau arfaethedig ai peidio a pha amodau (os oes rhai) ddylai fod ynghlwm wrth unrhyw ganiatâd. Ceir canllawiau ynglŷn â'r broses hon ym mhennod 5.4 o TAN 5.
5 Gwarchodfa Natur Genedlaethol	Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 neu Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)	Ardaloedd sy'n cael eu rheoli'n benodol er budd cadwraeth natur ac sydd hefyd yn cynnig cyfleoedd i bobl i brofi amrywiaeth cyfoethog ein treftadaeth naturiol a dysgu amdano. Mae Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yn cael eu hamddiffyn yn gaeth rhag gweithrediadau niweidiol, a rhaid i unrhyw weithrediadau o'r fath, mewn theori, gael eu awdurdodi gan y corff dynodi (CNC).

Dynodiadau Lleol		
Dynodiad	**Deddfwriaeth a Pholisi**	**Diben**
Gwarchodfa Natur Leol	Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949	Gwarchodfa natur a ddynodir gan Awdurdod Lleol. Mae'n adlewyrchu pwysigrwydd y safle o ran cadwraeth natur leol. Bydd yr awdurdod cynllunio yn ystyried datblygiadau ar unrhyw Warchodfa Natur Leol yn unol â pholisi EQ3 o'r CDLl.
Safleoedd Daearegol/ Geomorffaidd Pwysig yn Rhanbarthol (RIGS)	Polisi Cynllunio Cymru	Maent yn ffurfio rhwydwaith o fewn sir neu ranbarth o safleoedd daearegol yr ystyrir eu bod yn werth eu hamddiffyn oherwydd eu pwysigrwydd o safbwynt Gwyddorau'r Ddaear. Fe'u nodir yn unol â meini prawf a ddatblygir yn lleol, a all bwysleisio'r adnodd

		addysgol, hanesyddol a hamdden lleol yn hytrach nag arwyddocâd gwyddonol cenedlaethol safle, sef cylch gorchwyl statws SoDdGA. Bydd yr awdurdod cynllunio yn ystyried datblygiadau ar unrhyw RIGS yn unol â pholisi EQ3 o'r CDLl.

CYNEFINOEDD

Pwysigrwydd Rhyngwladol		
Dynodiad	**Deddfwriaeth a Pholisi**	**Diben**
Cynefinoedd o Bwys Ewropeaidd – 'Cynefinoedd â Blaenoriaeth Atodiad 1'. Neu ddarn o gynefin ar gyfer adar gwyllt.	Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd)	Gall y cynefin fod yn nodwedd sydd wedi peri dynodi safle Natura 2000 (gweler y tabl uchod), neu gall safle fod yn ddigon amrywiol, ac iddo arwynebedd digonol o gynefin ar gyfer adar gwyllt. Fel awdurdod cymwys, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol sicrhau amcan rheoliad 9A(3) cyn belled ag y mae hynny o fewn ei bwerau. Ceir arweiniad pellach ym mhennod 5.5 o TAN 5.

Pwysigrwydd Cenedlaethol neu Leol		
Dynodiad	**Deddfwriaeth a Pholisi**	**Diben**
Cynefin LBAP neu gynefinoedd Adran 42 neu gynefin y manylir arno yn y bil sydd yn yr arfaeth, Bil yr Amgylchedd (Cymru). Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur (ar ôl eu dynodi) (Gweler adran 6 isod)	Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin Bil yr Amgylchedd (Cymru) sydd ar fin ymddangos	Ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Bydd yr awdurdod cynllunio yn ystyried datblygiadau ar unrhyw gynefin cymwys yn unol â pholisi EQ4 neu EQ3 o'r CDLl. Ceir arweiniad pellach ym mhenodau 5.5 a 6.5 o TAN 5. Mae rhestr o'r rhywogaethau sydd wedi'u rhestru o dan Adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (rhywogaethau Ad42) i'w gweld ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Mae rhestr o'r cynefinoedd sydd wedi'u rhestru o dan Adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (cynefinoedd Ad42) i'w gweld yn atodiad 3.

5. RHYWOGAETHAU GWARCHODEDIG

5.1 Mae deddfwriaeth y Deyrnas Unedig, o dan gyfraith ddomestig neu Ewropeaidd, yn darparu ar gyfer gwarchod rhai fflora a ffawna. Gallai'r warchodaeth honno fod yn rhannol (e.e. gwahardd masnachu) neu'n llawn – bryd hynny gallai dal un o'r rhywogaethau, tarfu arni, ei lladd neu'i hanafu fod yn drosedd. Mae mannau bridio a gorffwys yn gysylltiedig â rhywogaethau gwarchodedig hefyd yn gael eu gwarchod. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am roi trwyddedau i waith a allai ymyrryd â rhywogaethau gwarchodedig, yn cynnwys rhywogaethau a warchodir gan Ewrop a moch daear a/neu eu deyerydd, tra mae datblygiadau yn mynd rhagddynt. Mae ystyried a chaniatáu trwyddedau o'r fath yn broses ar wahân i wneud cais am ganiatâd cynllunio, ond mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ystyried y ddeddfwriaeth gydol y broses ddatblygu (manylir ar y gofynion hyn yn y tablau isod). Gall yr awdurdod cynllunio orchymyn yr ymgeisydd i gyflenwi unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol o fewn rheswm i benderfynu ar gais cynllunio. O ran rhywogaethau gwarchodedig, dywed Paragraff 6.2.1 o TAN 5:

"The presence of a protected species is a material consideration when a local planning authority is considering a development proposal that, if carried out, would be likely to result in disturbance or harm to the species or its habitat".

5.2 Dywed Paragraff 6.2.2 o TAN 5 ymhellach:

"It is essential that the presence or otherwise of protected species, and the extent that they may be affected by the proposed development, is established before the planning permission is granted, otherwise all relevant material considerations may not have been addressed in making the decision. It is considered best practice that such a survey is carried out before a planning application is submitted. Planning permission should not be granted subject to a condition that protected species surveys are carried out and, in the event that protected species are found to be present, mitigation measures are submitted for approval. However, bearing in mind the delay and cost that may be involved, developers should not be required to undertake surveys for protected species unless there is a reasonable likelihood of them being present."

5.3 Lle mae'r awdurdod cynllunio o'r farn fod gofyn cael arolwg, rhaid cyflwyno hwnnw cyn cyflwyno cais cynllunio. Fel arall, ni fydd yr holl ystyriaethau perthnasol wedi cael eu hystyried. Ceir canllawiau pellach ar y gofynion arolwg a gweithdrefnau perthnasol yn adrannau 7 i 11 o'r canllawiau hyn.

5.4 Yn y tabl isod manylir ar y rhywogaethau y gwyddys eu bod yn bodoli yn Sir Gaerfyrddin sy'n cael eu gwarchod o dan y gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth. Mae manylion llawn y ddeddfwriaeth a rhestrau rhywogaethau ar gyfer holl rywogaethau'r Deyrnas Unedig ar gael yn Atodiadau 7 ac 8 o TAN 5. Rhaid nodi mai cyfrifoldeb yr ymgeisydd neu'r datblygwr yw sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ac unrhyw ofynion trwyddedu ffurfiol. Mae'n bwysig nodi nad yw caniatâd cynllunio (neu hawl datblygu a ganiateir) yn negyddu'r angen am drwydded ddatblygu neu'n golygu nad oes angen ystyried y gofynion deddfwriaethol cyn i waith gychwyn ar safle datblygu.

Pwysigrwydd Rhyngwladol a Chenedlaethol		
Dynodiad	**Deddfwriaeth a Pholisi**	**Diben**
Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop (yn cynnwys: Pathew, Dyfrgi, Ystlumod (pob rhywogaeth), Llamhidydd.	Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd)	Fe'i crëwyd i warchod rhywogaethau penodedig rhag lladd, anafu, tarfu neu ddal bwriadol neu ddiofal ac i warchod eu safleoedd bridio a'u mannau gorffwys. Fel awdurdod cymwys mae gofyniad statudol ar yr awdurdod cynllunio i ystyried y profion a bennir yn Erthygl 16 o Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE ac yn rheoliad 53 (9) o Reoliadau 2010. I osgoi sefyllfa lle mae datblygiadau sydd â chaniatâd cynllunio yn methu cael trwydded mewn cysylltiad â Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop yn ddiweddarach, dywed Polisi Cynllunio Cymru fod rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried y tri gofyniad yn gysylltiedig â rhanddirymiad wrth ystyried cynigion datblygu lle mae rhywogaeth a warchodir gan Ewrop yn bresennol. Ceir arweiniad ynglŷn â'r broses hon ym mhennod 6.3 o TAN 5.
Rhywogaethau Atodiad 2 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac Atodiad 1 y Gyfarwyddeb Adar	Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd)	Rhywogaethau a warchodir drwy ddynodi ACA neu AGA. Neu safle ag amrywiaeth ac arwynebedd digonol o gynefin ar gyfer adar gwyllt. Fel awdurdod cymwys, mae gofyniad ar yr awdurdod cynllunio i gyflawni amcan rheoliad 9A(3) cyn belled ag y mae hynny o fewn ei bwerau.
Adar Nythu (pob rhywogaeth)	Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981	Pob rhywogaeth yn cael ei gwarchod rhag lladd, anafu neu gymryd, hefyd rhag cymryd, difrodi neu ddinistrio nyth tra mae'r nyth honno'n cael ei defnyddio neu'i hadeiladu; neu gymryd neu ddinistrio unrhyw wy.
Adar Atodlen 1 (yn cynnwys: Tylluan Wen, Hebog Tramor, Telor Cetti, Barcud)	Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981	Yn ychwanegol at yr uchod, tarfu ar y rhywogaeth tra mae'n adeiladu ei nyth, neu y mae mewn, ar neu'n agos at nyth sy'n cynnwys wyau neu gywion; ac unrhyw darfu ar gywion dibynnol.
Anifeiliaid Atodlen 5 (yn cynnwys: Llygod Pengrwn y Dŵr, Britheg y Gors, Bele'r Coed, Ymlusgiaid, Gwiwer Goch).	Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981	Cyfuniadau amrywiol o ladd, anafu neu gymryd a tharfu arnynt tra maent yn defnyddio lle i gael lloches neu amddiffyniad.
Planhigion Atodlen 8, Penigan y Porfeydd	Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981	Amddiffyniad rhag gael eu casglu, eu dadwreiddio neu'u dinistrio yn fwriadol .
Rhywogaethau Goresgynnol Atodlen 9	Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981	Rhywogaethau sydd wedi'u gwahardd rhag lledaenu neu dyfu yn y gwyllt.
Mochyn Daear	Deddf Gwarchod Moch Daear 1992	Crëwyd i amddiffyn moch daear a deyerydd rhag ymyrraeth fwriadol neu ddi-hid.

Pwysigrwydd Lleol		
Dynodiad	**Deddfwriaeth a Pholisi**	**Diben**
Rhywogaethau LBAP. Rhywogaethau Adran 42 neu rywogaethau a restrir ym Mil yr Amgylchedd (Cymru) sydd ar fin ymddangos. Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur (wedi iddynt gael eu dynodi (Gweler adran 6 isod)	Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin Bil yr Amgylchedd (Cymru) sydd ar fin ymddangos	Ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Bydd yr awdurdod cynllunio yn ystyried datblygiadau ar unrhyw gynefin cymwys yn unol â pholisi EQ4 neu EQ3 o'r CDLl. Ceir arweiniad pellach ym mhenodau 5.5 a 6.5 o TAN 5. Mae rhestr o'r rhywogaethau sydd wedi'u rhestru o dan Adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (rhywogaethau Ad42) i'w gweld ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

6. SAFLEOEDD O BWYSIGRWYDD I GADWRAETH NATUR

Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur o fewn y CDLl

6.1 Adeg ysgrifennu'r canllawiau hyn, nid oedd unrhyw Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur wedi cael eu nodi'n ffurfiol yn Sir Gaerfyrddin. Caiff hyn ei adlewyrchu ym Mholisi EQ3 y CDLl sy'n hepgor dynodiadau o'r fath o eiriad y polisi. Fodd bynnag, fel adlewyrchiad o ymrwymiad y Cyngor i'r dynodiad, mae testun y polisi yn darparu ar gyfer eu dynodi. Mae'n darparu ar gyfer eu dynodi a'u gwarchod fel dynodiad rhanbarthol a lleol gan eu hystyried/gwarchod yn unol â darpariaethau polisi EQ3. Wrth wneud hynny mae'r CDLl yn pennu mai Canllawiau Cynllunio Atodol fydd yn cael eu hystyried fel y cyfrwng i'w nodi. Bydd y broses nodi yn cael ei monitro a darperir ar gyfer hynny drwy broses adolygu'r CDLl.

Y Cefndir

6.2 Mae dynodi Safle o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur yn adlewyrchu pwysigrwydd lleol safle o ran cadwraeth natur. Gall y dynodiad gynnwys safleoedd sy'n cynnwys un cynefin neu amrywiaeth o fathau o gynefin a/neu sy'n cynnal un rhywogaeth neu amryw o rywogaethau ac yn cynnig potensial sylweddol fel adnodd bioamrywiaeth. Dynodiad anstatudol yw Safle o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur ac fe'i nodir i warchod ardaloedd sydd â gwerth sylweddol o ran cadwraeth natur ar lefel leol. Ynghyd â dynodiadau cadwraeth natur statudol, er enghraifft Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), a safleoedd a ddynodeyd o dan Gyfarwyddeb CE, megis Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), bydd Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur yn elfen holl bwysig er gwarchod bioamrywiaeth yn Sir Gaerfyrddin.

6.3 Rhaid i awdurdodau lleol, wrth gyflawni'u dyletswyddau o dan Adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, 'roi sylw i' gadw bioamrywiaeth yn eu holl weithgareddau. Mae nodi Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur yn fecanwaith pwysig er sicrhau bod y cynefinoedd a'r rhywogaethau a nodir fel rhai o bwys yn Sir Gaerfyrddin, er enghraifft drwy LBAP, yn cael eu hystyried yn llawn yn y broses o ymdrin â cheisiadau cynllunio.

Diffinio Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur yn Sir Gaerfyrddin

6.4 Cydnabu Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaethau Natur a'r awdurdodau lleol, yr angen am set gyffredin o ganllawiau manwl ar ddethol Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur ac yn 2008 cyhoeddodd 'W*ildlife Sites Guidance Wales: A Guide to Develop Local Wildlife Sites Systems in Wales'*. Mae'r cyhoeddiad hwn yn darparu methodoleg/fframwaith cadarn er dynodi Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur a chaiff ei ddefnyddio i nodi Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur yn Sir Gaerfyrddin.

6.5 Mewn termau polisi cenedlaethol dywed Polisi Cynllunio Cymru y dylai safleoedd anstatudol fel Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur 'gael eu seilio yn gadarn ar asesiad gwyddonol ffurfiol' o werth y safle o ran cadwraeth natur ac 'ni ddylai awdurdodau cynllunio lleol gymhwyso'r dynodiadau hyn at ardaloedd o werth sylweddol o ran cadwraeth onid oes rheswm da dros gredu nad oes modd i bolisïau cynllunio arferol eu diogelu'n briodol'. Bydd nodi Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur gan ddefnyddio canllawiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn sicrhau bod y dynodi yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol.

6.6 Caiff atodiad ei ddatblygu a'i ddiweddaru i gyd-fynd â'r canllawiau hyn, yn manylu ar ddynodi Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur. Bydd yn rhestru Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur sydd wedi'u cadarnhau a, lle mae'n briodol, safleoedd posibl i'w dynodi. Bydd hefyd yn manylu ar nodweddion dynodi'r safleoedd ac yn cynnwys mapiau i ddangos eu lleoliad ac arwynebedd y safleoedd.

7. BIOAMRYWIAETH YN Y BROSES O WNEUD CAIS CYNLLUNIO

7.1 Mae'r adran hon yn nodi sut y gellir integreiddio bioamrywiaeth a chadwraeth natur i'r broses o wneud cais cynllunio. Bydd y canllawiau hyn yn help i arwain ymgeiswyr a swyddogion drwy'r camau y dylid eu cymryd i sicrhau bod sylw'n cael ei roi i fioamrywiaeth fel rhan o gynigion.

Manteision trafodaethau cynnar

7.2 Mae'r Cyngor yn ceisio annog cyswllt ac asesu yn ystod camau cynnar datblygu prosiect i gadarnhau diddordeb safle a thir cyfagos o ran bioamrywiaeth, gan nodi materion bioamrywiaeth penodol i'r safle a thynnu sylw at ofynion penodol i gynnal arolwg. O safbwynt bioamrywiaeth, mae gweithredu fel hyn yn fodd i ddeall yn gynnar a yw'r datblygiad arfaethedig yn dderbyniol (neu beidio), ac yn cynnig cyfle i arwain a dylanwadu'n gadarnhaol ar y gwaith o ffurfio cynigion. Mae hefyd yn rhoi cyfle i ddatblygwyr ac ymgeiswyr ddeall hyd a lled y gofynion mewn perthynas â'r safle o ran dogfennaeth a thystiolaeth ac effaith debygol y datblygiad arfaethedig, ynghyd â'r prosesau penodol (e.e. trwyddedu) y gallai fod angen eu dilyn. Bydd y broses hon hefyd yn lleihau'r oedi i ymgeiswyr yn ystod y broses ymgeisio. Yn Ffigur 1 dangosir proses ymarfer da o ran ystyried yr amgylchedd naturiol a materion bioamrywiaeth o fewn y broses gynllunio.

Ffigur 1: Proses Ymarfer Da



Beth a ddisgwylir gan gais?

7.3 Mae i lawer o geisiadau cynllunio y potensial i effeithio mewn rhyw ffordd ar fioamrywiaeth, drwy golli cynefinoedd a rhywogaethau yn uniongyrchol, neu drwy leihau gwerth cynefinoedd a'u gallu i gynnal y rhywogaethau sy'n dibynnu arnynt drwy ddadleoli/darfu ar gynefinoedd neu ddarnio cynefinoedd. Mae'n hanfodol fod effeithiau cynnig ar fioamrywiaeth yn cael eu hystyried cyn i gynllun datblygu gael ei ddylunio a chyn cyflwyno cais cynllunio – fel arall, ni fydd sylw wedi cael ei roi i'r holl ystyriaethau perthnasol. Rhaid gwneud yr asesiad hwn yn unol â Safonau Prydeinig (BS42020:2013 Bioamrywiaeth: Cod Ymarfer ar gyfer Cynllunio a Datblygu (BSI, 2013)). Cydnabyddir y gall cynlluniau mewn rhai achosion wella bioamrywiaeth hefyd oherwydd natur eu lleoliad neu'r dyluniad sy'n cael ei gynnig.

7.4 Lle mae'n ofynnol, rhaid cynnal arolwg ac asesiad o'r effaith ar unrhyw safleoedd dynodedig perthnasol, rhywogaethau gwarchodedig neu gynefinoedd â blaenoriaeth neu rywogaethau sy'n bwysig yn lleol (fel a amlinellwyd yn y tablau uchod) a'u cyflwyno gyda'r cais. Rhaid i unrhyw adroddiad gofynnol gynnwys manylion mesurau osgoi, gwella, a lliniaru neu ddigolledu am effeithiau niweidiol a rhaid manylu ar unrhyw waith rheoli angenrheidiol. (Ceir rhagor o fanylion am yr hierarchaeth lliniaru yn adran 8 y canllawiau hyn ac yn adran 5.2 o'r Safon Brydeinig i Fioamrywiaeth (BS42020:2013 Bioamrywiaeth: Cod Ymarfer ar gyfer Cynllunio a Datblygu (BSI, 2013)). Dylai unrhyw gynigion ecolegol/bioamrywiaeth gael eu hymgorffori yn nyluniad prosiect yn gynnar iawn er mwyn rhoi sylw i unrhyw gyfyngiadau bioamrywiaeth a gwneud yn fawr o'r cyfleoedd gwella.

7.5 Mae'r weithdrefn hon yn sicrhau: bod gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ddigon o wybodaeth i allu penderfynu a oes modd gwarchod bioamrywiaeth yn ystod y gwaith datblygu; ac mae'n gwneud yn siŵr nad effeithir yn niweidiol ar fioamrywiaeth leol yn sgil datblygiad. Ni fydd ceisiadau'n ddilys os na chaiff y wybodaeth briodol ei chyflwyno. Gall yr awdurdod cynllunio lleol orchymyn yr ymgeisydd i gyflwyno unrhyw wybodaeth bellach sy'n angenrheidiol o fewn rheswm er mwyn penderfynu ar unrhyw gais cynllunio.

7.6 Lle mae asesiad ecolegol yn dangos bod angen arolwg pellach i benderfynu ar ddiddordeb bioamrywiaeth y safle, rhaid datgan hyn yn glir yn yr adroddiad ecoleg, ynghyd â chyfiawnhad ac argymhellion ynglŷn â natur gwaith arolygu pellach sydd i'w gyflawni yn unol â'r canllawiau ymarfer gorau. Rhaid i unrhyw waith arolygu pellach gael ei gyflawni a rhaid paratoi adroddiad cyn y caiff y cais cynllunio ei gyflwyno.

7.7 Ni all arolygon ychwanegol fod yn destun amodau ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio oherwydd gallai'r strategaeth liniaru a ganiateir ddibynnu ar ganlyniadau arolwg pellach ac ni fyddai sylw wedi cael ei roi i'r holl ystyriaethau perthnasol.

7.8 Dylid nodi nad yw unrhyw arweiniad yn y canllawiau hyn yn disodli unrhyw ganllawiau neu ddulliau arolygu a gydnabyddir yn genedlaethol, sy'n ymdrin â rhywogaethau/cynefinoedd penodol.

Pwy ddylai gyflawni asesiadau ecolegol?

7.9 Rhaid i arolwg/asesiad gael ei gynnal a'i baratoi gan berson cymwys sydd â chymwysterau, trwyddedau a phrofiad ecolegol addas. Lle mae arolygon yn golygu tarfu ar rywogaeth warchodedig, ei dal neu ei thrin, dim ond person trwyddedig gaiff wneud hyn. Rhaid i bob ymarferydd gadw at yr arferion a nodwyd yn adran 4 o'r Safon Brydeinig ar Fioamrywiaeth (BS42020:2013 Bioamrywiaeth: Cod Ymarfer ar gyfer Cynllunio a Datblygu (BSI, 2013)).

Asesiad Ecolegol – Gwaith yn ei Dymor

7.10 Rhaid i waith asesu ecolegol gael ei gyflawni ar adeg a mis priodol o'r flwyddyn i'r cynefin neu'r rhywogaeth dan sylw, o dan amodau tywydd addas a chan ddefnyddio canllawiau / dulliau arolygu a gydnabyddir yn genedlaethol lle maent ar gael, a gweithio yn unol â'r safonau ymarfer gorau. Ceir arweiniad ynglŷn ag amseru arolygon yn Ffigur 2 o'r canllawiau hyn.

7.11 Mae dimensiynau tymhorol ac adeg o'r dydd i arolygu ac asesu ecolegol, sy'n gallu arwain at ofynion penodol ar arolygon yn/yn ystod y misoedd priodol a / neu'r adeg briodol o'r dydd. Yn dibynnu ar raddfa a chymhlethdod y cynnig a'r diddordeb bioamrywiaeth, efallai y bydd angen casglu data ar draws gwahanol dymhorau. Rhoddir cyngor cryf felly i ystyried y gofynion yn gynnar i osgoi oedi dianghenraid. Ceir crynodeb o'r cyfyngiadau amseru isod.

Ffigur 2: Arolwg Ecolegol - Tymhorau

	Ion	Chwe	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gor	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag
Moch Daear												
Ystlumod (Mannau Clwydo dros y Gaeaf)												
Ystlumod (Mannau Clwydo yn yr Haf)												
Ystlumod (Chwilota am Fwyd / Cymudo)												
Adar (Bridio)												
Adar (Gaeafu)												
Pathew (chwilio am gnau)												
Pathew (chwilio am diwbiau nythu)												
Infertebratau												
Dyfrgwn												
Ymlusgiaid												
Britheg y Gors (arolygon gweoedd larfal)												
Llygoden Bengron y Dŵr												
Cynefinoedd / Llystyfiant												

Optimal **Yn ymestyn i**

8. CADW A GWELLA BIOAMRYWIAETH YN Y BROSES DDYLUNIO – DEFNYDDIO'R HIERARCHAETH LLINIARU.

Osgoi

8.1 Rhaid i bob cynnig datblygu geisio osgoi niwed i gynefinoedd a rhywogaethau. Gellir cyflawni hyn drwy leoli ar safle amgen lle byddai effeithiau'r datblygiad yn llai niweidiol, neu drwy osod y datblygiad o fewn terfynau'r safle yn y fath fodd fel bod modd cadw a rheoli cynefinoedd. Gall mesurau posibl eraill gynnwys gwneud gwaith ar adeg o'r flwyddyn pan fydd yn llai tebygol o arwain at darfu, neu drwy newid dulliau gweithio i leihau'r effeithiau i lefel dderbyniol.

8.2 Lle caiff mesurau osgoi eu cynnig, rhaid eu hymgorffori mewn 'Datganiad Dull' a ddylai gael ei gyflwyno i'r Cyngor. Mae'n debygol y bydd gweithredu'r mesurau osgoi a amlinellir yn y datganiad yn amod o'r caniatâd cynllunio.

8.3 Wrth ddylunio cynlluniau, rhaid ystyried presenoldeb nodweddion pwysig a'r cysylltiadau ecolegol rhyngddynt a nodweddion eraill y tu hwnt i'r safle a, lle bynnag y mae'n bosibl, rhaid eu cadw.

8.4 Lle mae datblygiad arfaethedig yn ymgorffori mesurau osgoi, gallai hyn ddileu'r angen am waith arolygu manwl. Dylid ceisio cyngor Ecolegydd Cynllunio'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar y mater hwn. O dan rai amgylchiadau, lle mae'n rhaid bydd yr awdurdod cynllunio'n ceisio cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn ag unrhyw fesurau osgoi a gynigir.

8.5 Dylid hefyd ystyried cynnwys a darpariaethau'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Greu Ymdeimlad o Le a Dylunio

Lliniaru

8.6 Lle nad yw osgoi yn bosibl, rhaid i'r dyluniad geisio lliniaru unrhyw effeithiau negyddol. Dylai unrhyw fesurau lliniaru a gynigir adlewyrchu'r gwaith arolygu diweddar a dangos dealltwriaeth glir o'r safle a'i ystyriaethau ecolegol, a dylai ymgorffori unrhyw ofynion lliniaru y tynnwyd sylw atynt mewn asesiadau ac arolygon ecolegol, neu y tynnwyd sylw atynt mewn unrhyw ohebiaeth gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

8.7 Rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn rhoi sylw i holl effeithiau posibl y datblygiad arfaethedig a gwneud yn siŵr bod osgoi a lliniaru yn briodol i'r safle. Rhaid ystyried pob cam o ddatblygiad a faint o dir sy'n ofynnol, a hefyd effeithiau anuniongyrchol posibl yn ystod y gwaith adeiladu, tra bydd y datblygiad arfaethedig yn weithredol a, lle mae'n gymwys, pan fydd yn cael ei ddigomisiynu.

8.8 Cydnabyddir fodd bynnag fod lliniaru yn aml yn dal i olygu rhyw fath o niwed. Yn y cyswllt hwn, lle mae i safle neu'i amgylchoedd werth bioamrywiaeth clir a bod y mesurau lliniaru sy'n cael eu cynnig yn annigonol i warchod ei werth o fewn rheswm, gellir gwrthod caniatâd cynllunio cyhyd â bod sylw wedi cael ei roi i'r holl ystyriaethau perthnasol. Mae'n debygol y bydd gweithredu mesurau lliniaru arfaethedig sy'n dderbyniol mewn termau cynllunio yn amod o'r caniatâd cynllunio.

Digolledu

8.9 Mewn rhai achosion lle nad oes modd osgoi difrod niweidiol ac y bydd yn dal i ddigwydd er gwaethaf lliniaru, gellir ystyried digolledu am unrhyw golled drwy greu cynefin newydd mewn lleoliad newydd ar y safle, neu oddi ar y safle. Cyn ystyried digolledu bydd gofyn i'r datblygwr/ymgeisydd ddangos yn foddhaol nad yw osgoi a lliniaru yn bosibl ac na fyddai'r mesurau digolledu arfaethedig yn arwain at golled net o'r un math o gynefin.

8.10 Mae cynefinoedd sefydledig fel arfer yn datblygu'u gwerth bioamrywiaeth dros gyfnod hir o amser, felly ni fydd cynefinoedd a gaiff eu creu yn artiffisial fel arfer o safon debyg o gwbl i safon cynefin sefydledig. Mewn rhai achosion bydd yn briodol felly darparu mwy o gynefin na'r hyn a gollwyd yn wreiddiol i'r gwaith datblygu. Hefyd, mewn rhai achosion, ni fydd cynefin digolledu yn briodol, er enghraifft, lle collir coetiroedd hynafol a/neu aeddfed. Dylai cynefin digolledu gael ei greu cyn gwaith i glirio safle a lle mae a wnelo â rhywogaethau gwarchodedig dylai gael ei wneud yn unol ag unrhyw ofynion trwydded. Rhaid cadw at yr holl fesurau digolledu a amlinellir yn y drwydded; bydd methiant i wneud hynny yn dramgwydd troseddol.

8.11 Ni ddylai digolledu am gynefin a gollir gael ei ddehongli fel modd i wneud datblygiad annerbyniol yn dderbyniol. Os yw'n debygol y bydd trefniant digolledu yn cael ei ddefnyddio, y cyngor yw cynnal trafodaeth ag ecolegydd yr awdurdod cynllunio yn gynnar a, lle mae'n briodol, â Cyfoeth Naturiol Cymru.

Nodyn: Nid oes a wnelo digolledu â Rheoliad Ewropeaidd 66 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd). Dylid cyfeirio at gynnwys TAN5 Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009) (pennod 3 ac Atodiad 5).

Gwella

8.12 Mae polisïau a darpariaethau Polisi Cynllunio Cymru, TAN 5 a'r CDLl yn ceisio hyrwyddo gwella bioamrywiaeth y Sir. Rhaid i ddatblygwyr/ymgeiswyr ystyried y cyfleoedd dylunio i wella cynefinoedd er budd cadw bioamrywiaeth, i ddarparu nodweddion ar gyfer rhywogaethau gwarchodedig a'r rhai â blaenoriaeth, i fynd ati'n bositif i hybu cyfleoedd i wella ac adfer neu o bosibl i wneud darpariaeth ychwanegol o ran safleoedd gwarchodedig, cynefinoedd â blaenoriaeth, nodweddion daearegol, mathau eraill o fioamrywiaeth yn cynnwys gwella ac adfer rhwydweithiau ecolegol. Gellid cyflawni hyn drwy greu neu wella cynefinoedd, drwy ddarparu cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau penodol, drwy reoli nodweddion presennol neu, yng nghyswllt datblygiadau mwy, drwy greu ardaloedd pwrpasol i fywyd gwyllt.

Rheoli a Monitro Cynefinoedd/Rhywogaethau

8.13 Mae'n debygol y bydd angen gwaith rheoli a chynnal a chadw parhaus ar gynefinoedd neu nodweddion a gedwir neu rai newydd a grëir, i sicrhau eu bod yn para'n hir. Bydd angen cynllun rheoli cynefin penodol neu gynllun rheoli ecolegol ar rai safleoedd. Rhaid i unrhyw gynllun rheoli nodi camau penodol, y sefydliad a'r personél sy'n gyfrifol am roi'r cynllun ar waith ac efallai y bydd angen hefyd iddo nodi'r monitro sy'n ofynnol i sicrhau y caiff ei gyflawni'n llwyddiannus.

Sicrhau mesurau bioamrywiaeth ar ôl cais.

8.14 Mewn rhai achosion, bydd yn rhaid sicrhau'r gofynion uchod neu faterion ychwanegol drwy bennu amodau a/neu rwymedigaethau cynllunio. Ceir rhagor o wybodaeth ar ddefnyddio'r mecanweithiau hyn yn adrannau 9.2 – 9.4 o'r Safon Brydeinig ar Fioamrywiaeth (BS42020:2013 Bioamrywiaeth: Cod Ymarfer ar gyfer Cynllunio a Datblygu (BSI, 2013) neu adrannau 4.6 a 4.7 o TAN 5 (2009).

9. YMARFER DA A CHANLLAWIAU CYFFREDINOL

9.1 Mae'r adran hon yn amlinellu meysydd ymarfer da i'w hystyried fel rhan o unrhyw gynnig datblygu. Nid yw'r cynnwys wedi'i fwriadu i fod yn rhagnodol ac nid yw'n gosod gofynion ar ddatblygiadau. Yn hytrach, mae'n ceisio rhoi canllawiau a syniadau ar gyfer gwaith gwella cyffredinol.

Amseru a Rhaglennu Gwaith

9.2 I warchod gwerth bioamrywiaeth safle, rhaid yn aml gwneud rhai mathau o waith datblygu a gweithrediadau rheoli amgylcheddol ar adegau penodol o'r flwyddyn, a hynny o fewn amserlen dynn yn aml. Mae cadw at amseru cywir gweithrediadau yn holl bwysig er mwyn osgoi effeithiau dianghenraid ac annerbyniol.

9.3 Mae cam adeiladu unrhyw ddatblygiad yn creu potensial ar gyfer difrod ecolegol. Yn nodweddiadol gallai hyn ddigwydd wrth glirio safle, adeiladu ffyrdd mynediad dros dro, gosod gwasanaethau, storio defnyddiau, etc. Fodd bynnag, dylid cynllunio datblygiadau a gwaith safle gan gyfeirio at ganlyniadau unrhyw Asesiadau Ecolegol ac arolygon, i sicrhau cyn lleied â phosibl o ddifrod neu i osgoi difrod.

9.4 Gellir gofyn am arweiniad pellach gan Ecolegydd y Sir.

Tirweddu a Phlannu

9.5 Wrth greu nodweddion tirwedd newydd, dylai'r tirweddu hefyd adlewyrchu'r gofynion a amlygir mewn unrhyw arolwg neu asesiad ecolegol o'r safle. Dylid cadw cynefinoedd presennol, yn cynnwys coed, coetiroedd, perthi a chlustogfeydd i gyrsiau dŵr, yn unol â pholisi EP1, lle bynnag y mae hynny'n bosibl a dylent fod yn sail i ddylunio tirweddol ychwanegol. Lle mae'n briodol dylai cynlluniau plannu ddefnyddio rhywogaethau brodorol, yn cynnwys lle mae'n bosibl y rheini o darddiad lleol, er mwyn darparu budd ychwanegol i fywyd gwyllt lleol.

9.6 Dylid cadarnhau gyda Swyddog Coedyddiaeth y Sir a oes coed a Gorchymyn Cadw Coed arnynt yn bresennol, a dylid cyflwyno'r manylion gyda'r cais cynllunio. Dylai'r cyflwyniad gynnwys manylion ynglŷn â sut y cânt eu gwarchod yn ystod y cyfnod adeiladu ar y safle a phan fydd yn cael ei feddiannu.

9.7 Wrth greu cynefinoedd o gymeriad lleol a fydd yn cynnal bywyd gwyllt brodorol, dylid rhoi ystyriaeth fanwl i'r cymysgedd planhigion a ddefnyddir. Yn y cyswllt hwn mae'r cymysgedd gweiriau a ddewisir, canfod hadau o ffynonellau lleol a phlannu rhywogaethau brodorol yn sylfaenol bwysig er creu cynefin yn llwyddiannus.

9.8 Dylid cyfeirio at y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Greu Ymdeimlad o Le a Dylunio.

Creu Cynefin a Seilwaith Gwyrdd

9.9 Dylai cyfleoedd creu cynefin anelu at ail-greu'r mathau hynny o gynefin sy'n nodweddiadol o'r ardal leol a dylent adlewyrchu'r asesiad ecolegol o'r safle. Gallai cyfleoedd o'r fath fodoli ar y safle neu ar dir sydd wedi'i neilltuo ar gyfer creu cynefin fel rhan o'r datblygiad. Gellir gofyn am arweiniad pellach gan Ecolegydd y Sir.

9.10 Tra bydd rhai o'r cyfleoedd hyn yn cael eu cyfyngu i safleoedd mwy lle mae angen triniaeth adfer neu dirweddu, mae modd cyflawni mesurau eraill sy'n canolbwyntio ar rywogaethau allweddol ar raddfa lai. Mae'r rhain yn cynnwys:

Coetiroedd,
Perthi,
Gwlyptir,
Pyllau dŵr a phyllau bas,
Glaswelltir blodeuog,
Cynefinoedd brithwaith agored ar dir wedi'i ddatblygu'n flaenorol,
Cynefin pren marw a llochesau ymlusgiaid.

9.11 Gellir canfod cyfleoedd pellach i ymgorffori bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd mewn datblygiad yn atodiad B o'r ddogfen a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref a'r Ymddiriedolaethau Natur ym mis Gorffennaf, 2012, *Good Practice Guidance of Green Infrastructure and Biodiversity*.

Cynaliadwyedd

9.12 Mae'r CDLl yn ceisio ymateb yn gadarnhaol i'r materion yn ymwneud â newid hinsawdd yng nghyd-destun cynllunio defnydd tir. Yn y cyswllt hwn caiff datblygiadau eu hannog i gynnwys cynigion amgen cynaliadwy yn eu datblygiad a'u dyluniad.

9.13 Dylid ystyried defnyddio toeau gwyrdd a brown byw. Mae'r rhain yn cynnig ffordd effeithiol o insiwleiddio adeiladau, gan leihau'r dŵr sy'n rhedeg oddi arnynt a darparu mannau gwyrdd a chyfleoedd i greu cynefin yr un pryd.

9.14 Mae Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) yn cynnig buddion da o ran bywyd gwyllt yn ogystal â rheoli dŵr yn gynaliadwy, yn enwedig o'i defnyddio ar y cyd â systemau hidlo gwely cyrs. Mae SDCau yn fodd i gasglu dŵr glaw ffo gan ddefnyddio nodweddion fel ffosydd a chronbyllau. Mae ffosydd draenio yn gyfrwng posibl i greu cynefin o'u defnyddio yn lle pibellau dan ddaear. Er enghraifft, mae creu gwely cyrs a ffosydd agored yn gallu darparu cynefin rhagorol i lygod pengrwn y dŵr.

9.15 Dylid hefyd ystyried wynebau athraidd fel ffordd o ganiatáu i ddŵr dreiddio'n raddol i'r pridd dros ardal eang yn hytrach na'i fod yn cael ei sianelu i ffwrdd.

9.16 Ymysg dulliau eraill y gellid eu hymgorffori mewn datblygiadau newydd i'w gwneud yn fwy cynaliadwy mae lleihau'r defnydd o ynni, cyfeiriadedd, atebion cynllunio a dylunio, dulliau adeiladu carbon isel, defnyddio defnyddiau adeiladu lleol neu ddefnyddiau wedi'u hailgylchu, a phlannu coed a llwyni o darddiad lleol yn arbennig.

Clustogfeydd a Choridorau Bywyd Gwyllt

9.17 Dylai cynefinoedd bywyd gwyllt sy'n cael eu cadw a'r rhai a grëir o'r newydd gael eu cysylltu gan goridorau bywyd gwyllt, ac yn yr un modd dylai cynefinoedd ar safle gysylltu â'r rhai y tu hwnt i derfynau'r safle. Mae coridorau o'r fath yn cynnwys perthi, prysglwyni, coetir, cyrsiau dŵr, darnau o laswellt neu brysgwydd sy'n cael eu rheoli'n briodol, ffosydd, glannau etc. Yn aml gall cyfuniad o'r nodweddion hyn, megis perth ynghyd â stribed o laswellt heb ei dorri, ddarparu cynefin ychwanegol sydd o fudd i nifer o rywogaethau ac sydd felly'n gwneud cyfraniad hynod bositif a gwerthfawr yn nhermau cynefin bywyd gwyllt.

9.18 Lle mae'n briodol dylai unrhyw ddyluniad ymgorffori clustogfeydd i ddarparu gwarchodaeth ac amwynder gweledol. Mae hyn yn neilltuol o bwysig lle mae datblygiadau'n ffinio â nodweddion bywyd gwyllt fel coetiroedd, cyrsiau dŵr neu byllau dŵr.

Cynnal a Chadw a Rheoli

9.19 Lle mae datblygiad yn ymgorffori nodweddion cynefin a grëir yn newydd neu a gedwir, dylai'r rhain gael eu rheoli mewn ffordd fuddiol sy'n adlewyrchu gwerth y nodweddion. Lle mae rhaid gellir ymrwymo i gynllun rheoli am gyfnod penodedig i sicrhau bod ansawdd y safle/nodwedd yn cael ei gynnal yn briodol.

9.20 Rhaid ystyried y potensial ar gyfer buddion bywyd gwyllt drwy gynllun rheoli cynefin neu gynllun rheoli ecolegol fel y manylwyd yn adran 8 uchod.

10. RHESTRAU CYFEIRIO BIOAMRYWIAETH – CANLLAW I DDATBLYGWYR

10.1 Cynghorir ymgeiswyr/datblygwyr yn gryf i ddefnyddio a chwblhau'r rhestrau cyfeirio isod ar gyfer pob cynnig datblygu. Gellir eu cyflwyno fel rhan o unrhyw drafodaethau cyn-ymgeisio.

10.2 Eu diben yw helpu ymgeiswyr a datblygwyr i nodi ble gallai eu datblygiad arfaethedig gael effaith ar safleoedd, rhywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig perthnasol, a darparu proses dryloyw, glir i'r ymgeisydd a'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) ei dilyn o safbwynt cydymffurfio â pholisi cenedlaethol a deddfwriaeth. Bydd y rhestrau cyfeirio yn help i'r ymgeisydd a'r Cyngor ddeall goblygiadau bioamrywiaeth posibl y datblygiad arfaethedig. Mae'r rhestr gyfeirio ar gyfer safleoedd a chynefinoedd gwarchodedig a rhywogaethau gwarchodedig a rhywogaethau â blaenoriaeth hefyd yn nodi meini prawf penodol lle mae'n debygol y bydd arolygon manwl yn ofynnol a hefyd lle mae tebygolrwydd rhesymol fod rhywogaeth yn bresennol. Manylir ar y gofynion arolwg a ble mae modd cael arweiniad penodol pellach ynglŷn ag arolygon yn Adran 11.

Rhestr Gyfeirio Safleoedd a Chynefinoedd

Safleoedd sy'n bwysig yn rhyngwladol	
	Ticiwch fel sy'n briodol
Ydy'r datblygiad yn debygol o effeithio ar Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) neu safle Ramsar? Natur, graddfa a phellter oddi wrth/math o nodweddion AGA/ACA/Ramsar fydd yn penderfynu a fydd angen i effaith y datblygiad ar y safle hwnnw gael ei ystyried o safbwynt Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Os ydych yn ansicr cysylltwch ag Ecolegydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol i gael arweiniad a chyngor pellach. Rhaid i unrhyw gyflwyniad cynllunio gofnodi unrhyw effeithiau arwyddocaol posibl y gallai'r datblygiad arfaethedig eu cael ar unrhyw safle sydd â dynodiad rhyngwladol (ACA, AGA, safle Ramsar). Bydd y wybodaeth hon yn dylanwadu ar y Prawf Effaith Arwyddocaol Debygol ac yn help i benderfynu a fydd Asesiad Priodol yn ofynnol. Dylai'r cais hefyd ddarparu digon o wybodaeth i ganfod a yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith niweidiol ar unrhyw safle dynodedig a hefyd nodi unrhyw nodweddion cadwraeth natur (cynefinoedd/rhywogaethau) y mae'n debygol y bydd y cynigion yn effiethio arnynt, a nodi opsiynau posibl ar gyfer y lliniaru gofynnol. Yn ddelfrydol dylai'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn dogfen sgrinio o dan y rheoliadau cynefinoedd sydd i'w chyflwyno fel rhan o unrhyw gais. Os ystyrir bod rhaid wrth asesiad, gellir cytuno gyda'r ecolegydd cynllunio ar ei hyd a'i led .	Ydy* ☐ Nac ydy ☐
*Os atebwch 'ydy' i'r cwestiwn hwn, efallai y bydd angen manylion ychwanegol ar yr	

Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) fel bod modd cwblhau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Efallai na fydd hyn yn angenrheidiol lle gall yr ymgeisydd ddarparu gohebiaeth cyn-ymgeisio oddi wrth CNC, sy'n cadarnhau ei fod wedi'i fodloni na chaiff y datblygiad arfaethedig effaith niweidiol ar unrhyw safle ACA nac AGA.	
Safleoedd sy'n bwysig yn genedlaethol	
Ydy'r datblygiad arfaethedig yn effeithio ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)? Natur, graddfa a phellter oddi wrth/math o nodweddion SoDdGA fydd yn penderfynu a fydd angen i effaith y datblygiad ar y safle hwnnw gael ei ystyried gan CNC.	Ydy ☐ Nac ydy ☐
Os atebwch 'ydy', bydd angen ichi ystyried a allai'r datblygiad arfaethedig arwain at niwed i werth bywyd gwyllt y safle a dylech ymgynghori â CNC i fod yn eglur. Efallai y bydd rhaid cyflwyno gwybodaeth ategol oddi wrth CNC a/neu ar ffurf adroddiad ysgrifenedig, yn dangos na fydd y cynnig yn effeithio ar y SoDdGA. Dylech gyflwyno copïau o unrhyw ohebiaeth gyda'ch cais cynllunio.	
Safleoedd rhanbarthol a lleol	
Ydy'r datblygiad yn effeithio ar, neu a yw wrth ymyl Gwarchodfa Natur Leol, Safle Daearegol/Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol (RIGS), Safle Pwysig o ran Cadwraeth Natur (SINC) ?	Ydy ☐ Nac ydy ☐

Rhestr Gyfeirio Rhywogaethau Gwarchodedig a Rhywogaethau â Blaenoriaeth (Rhywogaethau Pwysig lawn)

Cynnig Datblygu	Ie/Na	Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop				Rhywogaethau a Warchodir yn Genedlaethol								Rhywogaethau â Blaenoriaeth								
		Ystlumod	Dyfrgi	Pathew	Llamhidydd	Llygoden bengron y dŵr	Britheg y Gors	Gwiwer Goch	Mochyn Daear	Tylluan Wen	Hebog Tramor	Adar Bridio	Adar Gwarchodedig Eraill	Bele'r Coed	Infertebratau	Ymlusgiaid	Adar	Mamaliaid	Planhigion	Ffyngau	Infertebratau	*Herptile* (amffibiaidd ac ymlusgol)
Datblygiad arfaethedig sy'n cynnwys newid, ymestyn, addasu, dymchwel neu dynnu adeiladau a strwythurau a / neu gynigion sy'n cynnwys y canlynol:		■										■										
• dymchwel adeiladau, a newidiadau yn effeithio ar y to (e.e. estyniadau at dŷ, addasu'r atig, ail-doi, estyniadau);		■								■		■					■					
• gwaith yn effeithio ar adeiladau fel eglwysi, capeli, adeiladau rhestredig, ysgolion, swyddfeydd, adeiladau masnachol, gwestyau, tafarnau, ysbytai ac adeiladau adfeiliedig;		■								■		■					■					
• gwaith yn effeithio ar / i ddymchwel adeiladau amaethyddol (e.e. ffermdai, ysguboriau, adeiladau allanol, siediau gwair, adeiladau da byw yn enwedig o adeiladwaith brics neu gerrig traddodiadol a/neu drawstiau pren agored mwy na 20cm o drwch;		■								■		■					■					

Cynnig Datblygu	Ie/Na	Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop				Rhywogaethau a Warchodir yn Genedlaethol								Rhywogaethau â Blaenoriaeth								
		Ystlumod	Dyfrgi	Pathew	Llamhidydd	Llygoden bengron y dŵr	Britheg y Gors	Gwiwer Goch	Mochyn Daear	Tylluan Wen	Hebog Tramor	Adar Bridio	Adar Gwarchodedig Eraill	Bele'r Coed	Infertebratau	Ymlusgiaid	Adar	Mamaliaid	Planhigion	Ffyngau	Infertebratau	*Herptile* (amffibiaidd ac ymlusgol)
• adeiladau cyn-1914 sydd o fewn 400m i goetir a/neu ddŵr neu adeiladau cyn-1914 sydd â thalcenni neu doeau llechi, waeth beth fo'u lleoliad;		■								■		■					■					
• twneli, mwyngloddfeydd, odynau, cytiau rhew, mynedfeydd, amddiffynfeydd milwrol, llochesi rhag bomio a choridorau a strwythurau dan ddaear tebyg;		■								■		■					■					
• strwythurau pontydd, dyfrbontydd a thraphontydd (yn enwedig dros ddŵr a thir gwlyb).		■				■						■					■					
Adeiladau o fewn 200m i goetir a / neu ddŵr (yn amodol ar fanylion penodol y cynnig).		■								■		■					■					
Adeiladau wedi'u lleoli oddi mewn neu yn union wrth ymyl coetir a / neu yn union wrth ymyl dŵr.		■								■							■					
Cynigion i osod llifoleuadau ar eglwysi ac adeiladau rhestredig neu i lifoleuo mannau gwyrdd o fewn 50m i goetir, dŵr, perthi caeau neu linellau o goed sy'n cysylltu â choetir neu ddŵr.		■	■							■		■										

Cynnig Datblygu	Ie/Na	Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop				Rhywogaethau a Warchodir yn Genedlaethol								Rhywogaethau â Blaenoriaeth								
		Ystlumod	Dyfrgi	Pathew	Llamhidydd	Llygoden bengron y dŵr	Britheg y Gors	Gwiwer Goch	Mochyn Daear	Tylluan Wen	Hebog Tramor	Adar Bridio	Adar Gwarchodedig Eraill	Bele'r Coed	Infertebratau	Ymlusgiaid	Adar	Mamaliaid	Planhigion	Ffyngau	Infertebratau	*Herptile* (amffibiaidd ac ymlusgol)
Cynigion yn effeithio ar goetir, perthi caeau, cloddiau, waliau cerrig etc a/neu linellau o goed a nodweddion cysylltu eraill fel prysgwydd, yn arbennig yn cysylltu â choetir neu gyrff dŵr.		■	■	■					■			■				■	■	■	■			■
Gwaith coed sy'n cynnwys cwympo, clirio a/neu docio a/neu waith datblygu sy'n effeithio ar:																						
• hen goed a choed hynafol dros 100 mlwydd oed;		■										■							■			
• coed â thyllau, craciau a gwagleoedd amlwg, rhisgl sy'n fflawio, rhwygau a/neu holltau agored		■										■							■			
• coed â chwmpas o fwy nag 1m ar uchder y frest		■										■							■			
• coetir.		■		■				■	■			■	■	■			■	■	■			
Cynigion am dyrbinau gwynt, unigol neu nifer ohonynt.		■											■				■					
Cynlluniau ynni dŵr			■			■													■			

Cynnig Datblygu	Ie/Na	Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop				Rhywogaethau a Warchodir yn Genedlaethol								Rhywogaethau â Blaenoriaeth								
		Ystlumod	Dyfrgi	Pathew	Llamhidydd	Llygoden bengron y dŵr	Britheg y Gors	Gwiwer Goch	Mochyn Daear	Tylluan Wen	Hebog Tramor	Adar Bridio	Adar Gwarchodedig Eraill	Bele'r Coed	Infertebratau	Ymlusgiaid	Adar	Mamaliaid	Planhigion	Ffyngau	Infertebratau	*Herptile* (amffibiaidd ac ymlusgol)
Cynlluniau solar									■			■				■						
Cynigion yn effeithio ar neu o fewn 200m i afonydd, nentydd, camlesi, llynnoedd, pyllau dŵr, gwelyau cyrs, glaswelltir corsiog neu gynefinoedd dyfrol eraill (yn amodol ar fanylion penodol y cynnig.			■			■	■						■			■	■		■			
Cynigion sydd wedi'u lleoli o fewn neu'n union wrth ymyl:																						
• Chwareli neu byllau graean.		■							■			■			■				■			■
• Clogwyni naturiol a brigiadau creigiog sydd ag agennau neu ogofâu a llyncdyllau		■							■		■	■			■	■			■			
Cynigion yn effeithio ar dir 'diffaith' (safleoedd tir llwyd), rhandiroedd a thir rheilffordd.									■			■			■	■	■		■		■	
Cynigion yn effeithio ar laswelltir blodeuog neu laswelltir wedi gordyfu, neu brysgwydd				■			■					■				■				■	■	
Datblygiad arfaethedig yn effeithio ar unrhyw adeiladau, strwythurau, nodweddion neu leoliadau lle gwyddys bod rhywogaethau neu			■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■

Cynnig Datblygu	Ie/Na	Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop				Rhywogaethau a Warchodir yn Genedlaethol								Rhywogaethau â Blaenoriaeth								
		Ystlumod	Dyfrgi	Pathew	Llamhidydd	Llygoden bengron y dŵr	Britheg y Gors	Gwiwer Goch	Mochyn Daear	Tylluan Wen	Hebog Tramor	Adar Bridio	Adar Gwarchodedig Eraill	Bele'r Coed	Infertebratau	Ymlusgiaid	Adar	Mamaliaid	Planhigion	Ffyngau	Infertebratau	*Herptile* (amffibiaidd ac ymlusgol)
gynefinoedd gwarchodedig/â blaenoriaeth yn bresennol.*																						

* Cadarnhawyd eu bod yn bresennol un ai drwy chwiliad data drwy'r Ganolfan Cofnodion Lleol neu drwy hysbysiad gan yr Awdurdod Lleol i'r datblygwr, a/neu gan CNC neu gorff cadwraeth natur arall.

11. AROLYGON A CHANLLAWIAU YMARFER GORAU

11.1 Caiff adroddiadau a ddaw i law'r awdurdod cynllunio lleol eu hasesu i weld a yw'r arolwg wedi cael ei gynnal yn gymwys, ar yr adeg iawn, o dan amodau tywydd addas a chan ddefnyddio'r canllawiau a'r dulliau arolygu cydnabyddedig cywir. Hefyd, fod yr adroddiad yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, yn cynnwys asesiad o effeithiau'r datblygiadau arfaethedig a'r holl argymhellion ecolegol. Asesir hefyd a yw'r arolwg a'r adroddiad yn unol â'r Safonau Prydeinig ar Fioamrywiaeth (BS42020:2013) ac yn cynnwys y wybodaeth y cyfeiriwyd ati yn adran 6.

11.2 Ni ddylai adroddiadau arolwg fod yn fwy na 2 dymor oed yng nghyswllt ystlumod; bydd rhywogaethau eraill yn dibynnu ar yr argymhellion yn y canllawiau sy'n bodoli ar gyfer y rhywogaeth honno a pha un a fu newidiadau sylweddol i'r safle ers unrhyw waith blaenorol. Efallai y bydd gofyn cynnal arolygon cyn-adeiladu hefyd, hyd yn oed os cwblhawyd arolwg ar y cam cynllunio, lle mae rhywogaeth yn gallu symud i mewn yn gyflym ac nad yw efallai yn hawdd ei chanfod, e.e. moch daear, ymlusgiaid etc., neu os oes amser sylweddol wedi mynd heibio ers cynnal yr arolwg.

11.3 Mae rhestr o ymgynghorwyr sy'n gwasanaethu Sir Gaerfyrddin, a'r arolygon perthnasol y maen nhw wedi dweud y gallant eu cyflawni, wedi'i chynnwys ar wefan y Cyngor. Nid yw'r rhestr yn holl gynhwysfawr ac ni ddylid ei dehongli fel rhestr o'r rhai sy'n cael eu ffafrio. Gallai fod ymgynghorwyr cymwys, cymwysedig a thrwyddedig eraill yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin sydd hefyd yn arolygwyr ac aseswyr derbyniol, nad ydynt wedi darparu'u manylion. Mae gan y Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM) hefyd restr ar ei wefan y mae modd ei chwilio.

11.4 Dylai pob adroddiad gynnwys crynodeb o wybodaeth ecolegol gan y Ganolfan Cofnodion Lleol. Gellir defnyddio data NBN hefyd i ategu data'r Ganolfan Cofnodion Lleol ond nid yn lle hynny. Dylid marcio pob adroddiad sy'n cynnwys data sensitif fel un cyfrinachol neu ddarparu'r wybodaeth hon mewn atodiad cyfrinachol.

11.5 Yn ychwanegol at y dogfennau cyfeirio allweddol a nodir isod, gellir gael gwybodaeth fanwl bellach ar rywogaethau/cynefinoedd neilltuol yn adran *Sources of Survey Methods* ar wefan CIEEM.

Nodwedd o ddiddordeb	**Dogfennau canllaw a meini prawf**
Ystlumod a Strwythurau Adeiledig	Rhaid cyflwyno ceisiadau sy'n ateb y meini prawf a nodwyd yn Adran 10 gydag arolwg ystlumod. Efallai y bydd yn bosibl comisiynu arolwg cwmpasu y tu allan i'r amser optimal i sefydlu defnydd tebygol gan ystlumod. Dim ond os oes gan yr ymgeisydd/Ecolegydd Cynllunio'r awdurdod lleol/CNC reswm i gredu ei bod yn annhebygol y bydd man clwydo ystlumod yn bresennol oherwydd strwythur, defnydd a/neu leoliad yr adeilad dan sylw y mae'n ddoeth comisiynu'r math hwn o arolwg. Os bydd arolwg cwmpasu yn canfod tystiolaeth o ddefnydd gan ystlumod neu botensial ar gyfer defnydd neu fwy na photensial bach fod ystlumod yn bresennol, yna bydd angen arolygon pellach yn ystod tymor gweithgar ystlumod. Rhaid i arolwg ystlumod gynnwys disgrifiad o'r adeilad/strwythur, coed/perthi, cynefin/safle cyfagos, coridorau sy'n cysylltu nodweddion cynefin ac asesiad cyffredinol o botensial y safle i gynnal ystlumod, yn allanol a mewnol, a dylai gynnwys lluniau neu ffotograffau. Mae canllawiau ar ymdrech, amseru a methodoleg arolygu ar gael yn *Bat Surveys - Good Practice Guidelines*, 2[il] Argraffiad a gyhoeddwyd gan Bat Conservation (Hundt L 2012) – Adrannau 4 - 9.

	Dylai unrhyw adroddiad arolwg ystlumod ddilyn y templed a roddir yn *Bat Surveys – Good Practice Guidelines.* Bat Conservation Trust (2012, Blwch 5.1 td.28 - 30) i sicrhau bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu i asesu natur y defnydd gan ystlumod a'r mesurau lliniaru sy'n ofynnol os oes ystlumod yn bresennol. Lle canfyddir rhywogaeth a warchodir gan Ewrop ar safle, rhaid cynnwys datganiad dull yn yr adroddiad yn unol â gofynion trwydded CNC. Ceir gwybodaeth bellach ar ystlumod ac adeiladau ar wefan y Bat Conservation Trust (BCT).
Ystlumod a Choed	Rhaid gwneud asesiad o unrhyw goed a'r potensial i ystlumod eu defnyddio a rhaid cynnal arolwg ystlumod llawn o unrhyw goed yr asesir bod iddynt botensial i fod ag ystlumod os byddir yn effeithio arnynt. Mae canllawiau penodol ar asesu coed i'w cael yn *Bat Surveys - Good Practice Guidelines*, 2[il] Argraffiad a gyhoeddwyd gan Bat Conservation (Hundt L 2012) – Adran 8.2.5.
Ystlumod a Thyrbinau Gwynt	Bydd angen rhywfaint o ymdrech arolygu gogyfer â safleoedd lle mae tyrbinau'n cael eu cynnig, yn bennaf i benderfynu a yw'r safle arfaethedig yn cael ei ddefnyddio gan, neu'n debygol o gael ei ddefnyddio gan ystlumod, pa rywogaethau sy'n bresennol ac ar ba adeg o'r flwyddyn (mae gweithgarwch ystlumod yn newid gydol y flwyddyn) y maent yn defnyddio'r safle. Mae hyn yn neilltuol o bwysig i'r rhywogaethau hynny a nodir fel rhai risg uchel, sy'n manteisio ar gynefinoedd agored ac yn fwy tebygol o fod mewn perygl o wrthdaro yn erbyn tyrbinau, er bod angen canfod pob rhywogaeth sy'n defnyddio'r safle i unrhyw raddau arwyddocaol. Rhaid sefydlu gweithgarwch ystlumod ar draws y safle ac oddi mewn iddo, a rhaid lleoli unrhyw fannau clwydo (mannau clwydo ar gyfer magu, safleoedd heidio neu safleoedd gaeafgysgu arwyddocaol) ar y safle neu'n agos ato. Rhaid i unrhyw arolwg archwilio unrhyw nodweddion a ddefnyddir gan ystlumod i gymudo neu chwilota am fwyd. Mae canllawiau ar ymdrech, amseru a methodoleg arolygu ar gael yn *Bat Surveys - Good Practice Guidelines*, 2[il] Argraffiad a gyhoeddwyd gan Bat Conservation (Hundt L 2012) – Adran 10. • Bydd arolygon yn ofynnol o leiaf unwaith yn y gwanwyn, yr hydref a'r haf ar safleoedd tyrbinau risg isel, neu fwy os yw'r risg yn uwch. • Efallai y gall yr ymgeisydd ddewis cyfyngu ar dyrbin ar ôl cynnal un arolwg, ar sail lefel y risg a ganfyddir drwy'r arolwg hwnnw. Dim ond ar ôl i'r gwaith arolygu cychwynnol gael ei asesu y gellir cytuno ar hyn a rhaid i Ecolegydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol gytuno. • Mae gofyn cynnal arolygon â llaw (trawsdorri) a statig. Dylai arolygon statig bara 5 diwrnod olynol. • Dylai unrhyw arolygon â llaw gael eu cynnal ar nosweithiau cynnes, sych, pan fydd buanedd y gwynt yn isel. • Rhaid cynnwys manylion y tymheredd a'r amodau tywydd yn ystod arolygon yn yr adroddiad terfynol.
Ystlumod a Goleuadau	Efallai fod cynefinoedd ar safle cais yn cael eu defnyddio gan ystlumod sy'n cymudo neu'n chwilota am fwyd. Dylid ystyried defnyddio goleuadau lefel isel mewn unrhyw gynllun arfaethedig a defnyddio gorchuddion golau er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar ystlumod, yn enwedig ar hyd coridorau hedfan/bywyd gwyllt posibl. Dylid darparu manylion goleuadau arfaethedig mewn cynllun goleuadau (gan ddilyn y canllawiau a restrir yn y ddogfen, *Bats and Lighting in the UK*, Bat Conservation Trust, 2008). Os yw safle i gael ei oleuo'n helaeth, rhaid cynnal arolygon o weithgarwch

	ystlumod yn unol â'r cyngor a roddir yn *Bat Surveys - Good Practice Guidelines*, 2[ll] Argraffiad.
Tylluan Wen	Rhaid cynnal arolwg tylluanod gwyn i ganfod presenoldeb neu absenoldeb tylluanod gwyn yn yr adeilad yng nghyswllt ceisiadau sy'n ateb y meini prawf yn Adran 10. Fel arfer gellir gwneud hyn fel rhan o unrhyw arolwg ystlumod gofynnol. Mae mesurau lliniaru a digolledu yn gysylltiedig â'r dylluan wen yn cynnwys darparu safleoedd nythu/clwydo amgen (rhai dros dro a pharhaol), osgoi effeithiau uniongyrchol ar y dylluan wen (yn cynnwys cywion ac wyau) drwy amseru gwaith yn briodol, cadw/creu adnoddau cynefin hela a chysylltiadau rhwng y rhain a'r safleoedd nythu. Ceir canllawiau pellach yn Ramsden, D. a Twiggs, M. (2009). *Barn Owls and Rural Planning Applications .What needs to happen. - A Guide for Planners*. Barn Owl Trust: Ashburton
Cynefinoedd ac asesu cynlluniau mwy na 0.1 ha	Bydd angen Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol ar gyfer pob cais sy'n cynnwys 0.1ha neu fwy o dir glas (tir nad yw wedi'i ddatblygu'n flaenorol) (oni bai fod trafodaethau gyda'r Ecolegydd Cynllunio yn nodi nad yw hyn yn angenrheidiol). Efallai y bydd angen Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol ar rai safleoedd sy'n disgyn islaw'r trothwy hwn hefyd neu safleoedd tir llwyd. Bydd angen asesiad cynefinoedd ar bob safle sy'n bodloni'r meini prawf SINC neu gynefin Adran 42. Bydd angen Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol o'r safle a'r cyffiniau agos hefyd yn gefn i unrhyw gynllun tyrbinau gwynt, solar neu hydro arfaethedig, waeth beth fo'r maint na'r nifer. Ceir canllawiau ar Ofynion Arfarniadau Ecolegol Rhagarweiniol yn nogfen y Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM), (2013), *Guidelines for Preliminary Ecological Appraisal.* Dylid nodi rhywogaethau goresgynnol mewn unrhyw Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol. Rhaid i'r Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol ymgorffori arolwg cynefin estynedig cam 1, sef ymarferiad bras i asesu a mapio cynefin, a phenderfynu pa ddiddordeb sydd yno o ran rhywogaethau gwarchodedig. Lle nodir bod diddordeb ecolegol uchel i gynefinoedd, efallai y gofynnir am arolwg llystyfiant pellach. Dull manwl o benderfynu ar ansawdd cynefin yw arolwg dosbarthiad llystyfiant cenedlaethol. Ceir canllawiau ar gynnal arolwg Cam 1 yn nogfen y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (2010). *Handbook for Phase 1 Habitat Survey - a Technique for Environmental Audit*. Ailagraffwyd gan JNCC, Peterborough. Ceir canllawiau ar arolwg dosbarthiad llystyfiant cenedlaethol yn y ddogfen - Rodwell JS (2006). *National Vegetation Classification: Users' Handbook*. JNCC, Peterborough.
Dyfrgi	Ar gyfer safleoedd sy'n ffinio â neu'n ymgorffori cyrsiau dŵr, nentydd neu byllau dŵr mawr, bydd gofyn canfod a yw'r safle'n cael ei ddefnyddio gan ddyfrgwn i symud, bridio neu orffwys. Rhaid cynnal asesiad o'r cwrs dŵr a'r llystyfiant cysylltiol i ganfod eu potensial i gynnal dyfrgwn. Os canfyddir eu bod yn addas, rhaid cynnwys gwarchod a gwella'r corff dŵr a llystyfiant addas ar gyfer y rhywogaeth fel rhan o unrhyw gynllun. Os effeithir ar gynefin y dyfrgwn bydd gofyn cynnal arolwg. Lle canfyddir rhywogaeth a warchodir gan Ewrop ar safle, rhaid cynnwys datganiad dull yn yr adroddiad yn unol â gofynion trwydded CNC.
Llygoden Bengron y Dŵr	Ar gyfer safleoedd lle mae cwrs dŵr yn bresennol neu rwydwaith o byllau dŵr a ffosydd gwlyb yn y cyffiniau sy'n cysylltu â'r safle, a hynny'n enwedig ar ffurf glaswelltir corsiog, bydd gofyn canfod a oes llygod pengrwn y dŵr yn bresennol, a

	pha ddefnydd sy'n cael ei wneud o'r safle ar y pryd. Rhaid cynnal asesiad o'r cwrs dŵr a'r llystyfiant cysylltiol i ganfod eu potensial i gynnal llygod pengrwn y dŵr. Os canfyddir eu bod yn addas, rhaid cynnwys gwarchod a gwella'r corff dŵr a llystyfiant addas ar gyfer y rhywogaeth fel rhan o unrhyw gynllun. Os effeithir ar gynefin llygod pengrwn y dŵr bydd gofyn cynnal arolwg. Ceir rhagor o wybodaeth yn Strachan R a Moorhouse T (2006). *Water Vole Conservation Handbook, 2nd Edition*. Wildlife Conservation Research Unit (WildCRU), Prifysgol Rhydychen.
Pathewod	Ar gyfer safleoedd sy'n ffinio ag ardaloedd mawr o goetir neu brysgwydd neu sydd â pherthi hynafol/aeddfed, bydd gofyn canfod a oes pathewod yn bresennol. Rhaid cynnal asesiad o'r perthi/prysgwydd/coetir i ganfod eu potensial i gynnal pathewod. Os canfyddir eu bod yn addas, rhaid cynnwys gwarchod a gwella'r perthi/prysgwydd/coetir ar gyfer y rhywogaeth fel rhan o unrhyw gynllun. Os effeithir ar gynefin y pathew bydd gofyn cynnal arolwg. Ceir rhagor o wybodaeth yn Bright PW, Morris PA a Mitchell-Jones A (2006). *Pathew Conservation Handbook, 2nd Edition*. English Nature, Peterborough. Lle canfyddir rhywogaeth a warchodir gan Ewrop ar safle, rhaid cynnwys datganiad dull yn yr adroddiad yn unol â gofynion trwydded CNC.
Britheg y Gors	Mae ieir bach yr haf Britheg y Gors llawn dwf ar yr adain rhwng mis Mai a mis Gorffennaf a'r adeg orau i arolygu eu gweoedd (gweoedd sidan a wehyddir gan y larfae/lindys) yw mis Awst i fis Medi pan fyddant yn fwyaf amlwg. Bydd angen arolygon ar gyfer pob safle glaswelltir corsiog lle ceir y planhigion sy'n fwyd i Fritheg y Gors, Tamaid y Cythraul (*Succisa Pratensis*).
Mochyn Daear	Bydd angen i geisiadau benderfynu a oes deyerydd moch daear wedi'u lleoli ar y safle neu o fewn 30m i'r safle, ac a yw'r safle'n cael ei ddefnyddio i chwilota am fwyd, fel carthfeydd etc.
Ymlusgiaid	Bydd gofyn cynnal arolwg ymlusgiaid lle mae yna gynefin addas a chysylltiad rhwng cynefinoedd e.e. rheilffyrdd, nentydd, rhandiroedd, cloddiau glaswelltir, prysgwydd, pentyrrau o bren, rwbel, compost a thomenni, i ganfod presenoldeb ymlusgiaid a'r lefelau poblogaeth. Dylai unrhyw safle arfaethedig gael ei asesu am ei botensial i gynnal ymlusgiaid. Rhaid cynnal arolygon ymlusgiaid os oes cynefin addas i gael ei glirio. Bydd yr asesiadau'n sail i god ymarfer adeiladu mewn perthynas ag ymlusgiaid ar gyfer y gwaith arfaethedig er mwyn atal lladd ac anafu.
Adar	Lle mae'n gymwys, lle mae'r datblygiad yn mynd i olygu colli/diraddio/llygru cynefin sy'n cynnal rhywogaeth adar gwyllt a allai effeithio ar yr amcan o gadw, cynnal ac ailsefydlu amrywiaeth ac arwynebedd digonol o gynefin ar gyfer adar gwyllt, efallai y gofynnir hefyd am waith arolygu pellach yn unol â Rheoliad 9(A) o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd). Rhaid i unrhyw gais asesu'r poblogaethau adar cyffredinol sy'n defnyddio ardal y cais ar y pryd ac effaith y datblygiad ar y rhain, o ran colli cynefin, tarfu ac adleoli. Bydd angen digolledu am golli cynefin.
Adar a Thyrbinau Gwynt	Rhaid cynnal astudiaeth desg gynhwysfawr i asesu'r cofnodion am weithgarwch adar o amgylch safle tyrbinau arfaethedig. Rhaid hefyd ystyried effeithiau cronnus. Rhaid cynnal arolwg ar droed o'r safle a'r ardal gyfagos sy'n berthnasol o ran pellteroedd clustogi priodol (rhag tarfu) i rywogaethau perthnasol fel y barcud i ganfod a yw'r astudiaeth desg yn adlewyrchu'r sefyllfa ar y ddaear ac i nodi unrhyw safleoedd posibl o bwys i adar neu rywogaethau y mae rhaid eu hystyried.

	Ar sail canfyddiadau'r astudiaeth desg a'r arolwg ar droed efallai y bydd gofyn cynnal arolygon llawn o fannau manteisiol ac asesiad perygl gwrthdaro. Rhaid asesu'r gwaith arolygu cychwynnol a rhaid cytuno arno gydag Ecolegydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn gwneud cais, er mwyn penderfynu a fydd angen arolwg pellach. Bydd angen i unrhyw arolygon pellach gael eu cyflawni gan ddilyn canllawiau cydnabyddedig SNH i sicrhau eu bod wedi cael eu cyflawni yn unol â phrotocol cydnabyddedig.

ATODIAD 1 – SAFLEOEDD RHYNGWLADOL

Safle Ewropeaidd	Nodwedd(ion) Cymhwyso	Maint (hectarau)	Math o Safle
ACA Afon Tywi / River Tywi	□□Gwangen □□Dyfrgi □□Llysywen bendoll y môr □□Llysywen bendoll yr afon □□Llysywen bendoll y nant □□Herlyn □□Penlletwad	363.45	Dyfrol
ACA Caeau Mynydd Mawr	□□Dolydd *Molinia* ar briddoedd calchog, mawnaidd neu gleiog-llawn-silt (*Molinion caeruleae*) □□Iâr fach yr haf Britheg y Gors	25.06	Daearol
ACA Cernydd Carmel	□□Tirlynnoedd □□Rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gydag *Erica tetralix* □□Rhostiroedd sych Ewropeaidd □□Cyforgorsydd gweithredol □□Coedwigoedd *Tilio-Acerion* o lethrau, sgri a dyfnentydd	361.14	Daearol
ACA Twyni Bae Caerfyrddin	□□Egin-dwyni symudol □□Twyni symudol ar hyd y glannau gydag *Ammophila arenaria* □□Twyni sefydlog gyda llystyfiant llysieuol □□Twyni gyda *Salix repens ssp. argentea* □□Llaciau twyni gwlyb □□Malwen droellog geg gul □□Llysiau'r afu petalaidd □□Gefell-lys y fignen	1206.32	Daearol
ACA Afon Teifi/ River Teifi	□□Cyrsiau dŵr o lefel gwastadedd i fynyddoedd gyda llystyfiant *Ranunculion fluitantis* a *Callitricho-Batrachion* □□Merddwr oligotroffig i fesotroffig gyda llystyfiant *Littorelletea uniflorae* a/neu IsoÙto-Nanojuncetea □□Llysywen bendoll y nant □□Llysywen bendoll yr afon □□Eog □□Penlletwad □□Dyfrgi □□Dŵr-lyriad nofiadwy □□Llysywen bendoll y môr	715.58	Dyfrol
ACA Afonydd Cleddau/ Cleddau Rivers	□□Cyrsiau dŵr o lefel gwastadedd i fynyddoedd gyda llystyfiant *Ranunculion fluitantis* a *Callitricho-Batrachion* □□Cyforgorsydd gweithredol □□Coedwigoedd llifwaddodol gydag *Alnus glutinosa* a *Fraxinus excelsior* □□Llysywen bendoll y nant □□Llysywen bendoll yr afon □□ Penlletwad □□Dyfrgi □□Llysywen bendoll y môr	750.73	Dyfrol a Daearol
ACA Bae Caerfyrddin ac Aberoedd	□□Banciau tywod wedi'u gorchuddio rywfaint gan ddŵr y môr drwy'r amser □□Morydau □□Gwastadeddau mwd a gwastadeddau tywod nad ydynt wedi'u gorchuddio â dŵr y môr ar y distyll □□Cilfachau a baeau mawr bas □□*Salicornia* a phlanhigion unflwydd eraill yn cytrefu mwd a thywod □□Dolydd heli'r Iwerydd □□Gwangen □□Llysywen bendoll y môr □□Llysywen bendoll yr afon □□Herlyn □□Dyfrgi	66101.16	Dyfrol
AGA Bae Caerfyrddin/ Carmarthen Bay	□□Môr-hwyaden ddu	95860.36	Dyfrol

ACA Cwm Doethie-Mynydd Mallaen	□□Hen goetiroedd derw mes di-goes gydag *Ilex* a *Blechnum* ar Ynysoedd Prydain □□Rhostiroedd sych Ewropeaidd	4122.29	Daearol
AGA Elenydd – Mallaen	□□Cudyll bach □□Barcud	30022.14	Daearol
AGA Cilfach Tywyn	□□Hwyaden lostfain □□Hwyaden lydanbig □□ Hwyaden gribog □□Chwiwell □□Pibydd y mawn □□Pibydd yr afon □□Pioden fôr □□Gylfinir □□Cwtiad llwyd □□Hwyaden yr eithin □□Pibydd coesgoch	6627.99	Dyfrol
ACA Bae Ceredigion / Cardigan Bay	□□ Banciau tywod wedi'u gorchuddio rywfaint gan ddŵr y môr drwy'r amser □□Creigresi □□Ogofâu môr sydd dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr □□Dolffin trwyn potel □□Llysywen bendoll y môr □□Llysywen bendoll yr afon □□Morlo llwyd	95860.36	Dyfrol
ACA Coedydd Gogledd Sir Benfro / North Pembrokeshire Woodlands	□□Hen goetiroedd derw mes di-goes gydag *Ilex* a *Blechnum* ar Ynysoedd Prydain □□Coedwigoedd llifwaddodol gydag *Alnus glutinosa* a *Fraxinus excelsior* □□Ystlum du	315.68	Daearol
ACA Yerbeston Tops	□□Dolydd *Molinia* ar briddoedd calchog, mawnaidd neu gleiog-llawn-silt (*Molinion caeruleae*) □□Iâr fach yr haf Britheg y Gors	18.81	Daearol
ACA Rhos Llawr-cwrt	□□ Iâr fach yr haf Britheg y Gors □□*Hamatocaulis vernicosus* (mwsogl)	46.13	Daearol
ACA Safleoedd Ystlum Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton / Pembrokeshire Bat Sites and Bosherton Lakes	□□Dyfroedd caled oligo-mesotroffig gyda llystyfiant môr-waelodol *Chara spp*. □□Ystlum Pedol Mwyaf □□ Ystlum Pedol Lleiaf □□Dyfrgi	122.44	Daearol
ACA Coedydd Ynn Gŵyr / Gower Ash Woods	□□Coedwigoedd *Tilio-Acerion* o lethrau, sgri a dyfnentydd □□Coedwigoedd llifwaddodol gydag *Alnus glutinosa* a *Fraxinus excelsior*	233.15	Daearol
ACA Sir Benfro Forol	□□Morydau □□Cilfachau a baeau mawr bas □□Creigresi □□ Banciau tywod wedi'u gorchuddio rywfaint gan ddŵr y môr drwy'r amser □□ Gwastadeddau mwd a gwastadeddau tywod nad ydynt wedi'u gorchuddio â dŵr y môr ar y distyll □□Morlynnoedd arfordirol □□ Dolydd heli'r Iwerydd □□ Ogofâu môr sydd dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr □□Morlo llwyd □□Tafolen y traeth □□Llysywen bendoll y môr □□Llysywen bendoll yr afon □□Herlyn □□Gwangen □□Dyfrgi	138069.45	Dyfrol
ACA Tiroedd Comin Gŵyr / Gower Commons	□□Rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gydag *Erica tetralix* □□Rhostiroedd sych Ewropeaidd □□Iâr fach yr haf Britheg y Gors □□Mursennod Penfro	1776.72	Daearol
ACA Afon Gwy / River Wye	□□Cyrsiau dŵr o lefel gwastadedd i fynyddoedd gyda llystyfiant *Ranunculion fluitantis* a *Callitricho-Batrachion* □□Corsydd a chorsydd crynedig trawsnewidiol	2234.89	Dyfrol

	□□Cimwch dŵr croyw □□Llysywen bendoll y môr □□Llysywen bendoll y nant □□Llysywen bendoll yr afon □□Gwangen □□Eog □□Penlletwad □□Dyfrgi □□Herlyn		
ACA Gweunydd Blaencleddau	□□Rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gydag *Erica tetralix* □□Dolydd *Molinia* ar briddoedd calchog, mawnaidd neu gleiog-llawn-silt □□Gorgorsydd □□Corsydd a chorsydd crynedig trawsnewidiol □□Ffeniau alcalïaidd □□Iâr fach yr haf Britheg y Gors □□Mursen Penfro	150.11	Daearol
ACA Preseli	□□Rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gydag *Erica tetralix* □□Rhostiroedd sych Ewropeaidd □□Pantiau ar is-haenau mawn *Rhynchosporion* □□Ffeniau alcalïaidd □□Mursen Penfro □□ Iâr fach yr haf Britheg y Gors □□*Hamatocaulis vernicosus* (mwsogl)	2705.9	Daearol
ACA Mynydd Epynt	□□*Hamatocaulis vernicosus* (mwsogl)	40.12	Daearol
ACA Afon Wysg / River Usk	□□Cyrsiau dŵr o lefel gwastadedd i fynyddoedd gyda llystyfiant *Ranunculion fluitantis* a *Callitricho-Batrachion* □□Llysywen bendoll y môr □□Llysywen bendoll y nant □□Llysywen bendoll yr afon □□Gwangen □□Eog □□Penlletwad □□Dyfrgi □□Herlyn	1007.71	Dyfrol

ATODIAD 2 – POLISÏAU'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL

SP14 Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol

Dylai datblygiadau adlewyrchu'r angen i warchod a, lle bynnag y bo modd, gwella amgylchedd naturiol y sir.

Dylid ystyried pob cynnig datblygu yn unol â chanllawiau cenedlaethol/deddfwriaeth a pholisïau a chynigion y Cynllun hwn, gan roi ystyriaeth ddyledus i ardaloedd o werth cadwraeth natur, cefn gwlad, tirweddau ac ardaloedd arfordirol, gan gynnwys y rheiny a nodir isod:

a) **Safleoedd â dynodiad statudol gan gynnwys safleoedd Ramsar, AGA, ACA, SoDdGA a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol;**
b) **Bioamrywiaeth a Gwerth Cadwraeth Natur, gan gynnwys rhywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig o bwysigrwydd cydnabyddedig yn ogystal â choridorau a llwybrau cysylltedd allweddol; (Polisïau EQ4 ac EQ5)**
c) **Safleoedd sy'n bwysig yn lleol ac yn rhanbarthol (a'u nodweddion) gan gynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol a RIGS; (gweler Polisi EQ3)**
d) **Ardaloedd o ansawdd tirweddol a morweddol dynodedig; (gan gynnwys ATA)**
e) **Nodweddion sy'n cyfrannu at natur unigryw leol, gwerth cadwraeth natur neu'r dirwedd; (gweler Polisi EQ5)**
f) **Y Cefn Gwlad Agored; (gweler Polisi GP2)**
g) **Y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlddefnydd; (Graddau 2 a 3a)**
h) **Asedau naturiol: gan gynnwys aer, pridd (gan gynnwys priddoedd â llawer o garbon), dyfroedd a reolir ac adnoddau dwr. (Gweler Polisïau EP1 ac EP2)**

Polisi EQ3 Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol

Ni fydd cynigion ar gyfer datblygiadau sy'n debygol o achosi niwed annerbyniol i Warchodfa Natur Leol neu Safleoedd Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol yn cael eu caniatáu ond lle mae'n amlwg bod y rhesymau dros y datblygiad neu'r newid yn y defnydd tir yn drech na'r angen i ddiogelu gwerth cadwraeth natur sylweddol y safle neu'r nodwedd.

Bydd dynodi safleoedd o'r fath yn cael ei gefnogi lle bo'n briodol.

Polisi EQ4 Bioamrywiaeth

Ni fydd cynigion ar gyfer datblygiadau a fydd yn cael effaith andwyol ar rywogaethau, cynefinoedd a nodweddion â blaenoriaeth y cydnabyddir eu bod yn bwysig iawn i warchod bioamrywiaeth a chadwraeth natur (sef y rheiny a warchodir gan Adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 a chynefinoedd a rhywogaethau Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth a'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a safleoedd a rhywogaethau eraill a warchodir o dan ddeddfwriaeth Ewrop neu'r Deyrnas Unedig) yn cael eu caniatáu oni ellir dangos:

a) **Y gall yr effeithiau gael eu lliniaru'n foddhaol, eu lleihau i'r eithaf yn dderbyniol neu eu rheoli'n briodol i gynnwys gwelliannau net;**
b) **Bod yna amgylchiadau eithriadol lle mae'n amlwg bod y rhesymau dros y datblygiad neu'r newid yn y defnydd tir yn drech na'r angen i ddiogelu nodweddion y safle o ran bioamrywiaeth a chadwraeth natur a lle gellir gwneud darpariaeth arall o ran cynefinoedd er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth leol.**

Polisi EQ5 Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion o Natur Unigryw

Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau na fyddent yn cael effaith andwyol ar y nodweddion hynny sy'n cyfrannu at natur unigryw/priodweddau'r sir ac ar waith rheoli a/neu ddatblygu rhwydweithiau ecolegol (rhwydweithiau coridorau bywyd gwyllt), coridorau gwyrdd hygyrch a'u didoredd a'u cyfanrwydd, yn cael eu caniatáu.

Bydd cynigion sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer cadw a rheoli'n briodol nodweddion o'r fath yn cael eu cefnogi (ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â pholisïau a chynigion y cynllun hwn).

Polisi GP1 Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Da

Caiff cynigion datblygu eu caniatáu os ydynt yn unol â'r canlynol:

a) **Mae'n cydymffurfio â chymeriad a golwg y safle, adeilad neu ardal, ac yn eu gwella, yn nhermau lleoliad, golwg, graddfa, uchder, mas, addurn y wynebau, a'r manylion;**

b) **Mae'n ymgorffori nodweddion tirweddol neu nodweddion eraill sy'n bodoli eisoes, yn cymryd i ystyriaeth gyfuchlinau'r safle a newidiadau mewn lefelau a nenlinellau neu gefnennau amlwg;**

c) **Mae'n defnyddio deunyddiau sy'n briodol i'r ardal lle y saif;**

d) **Ni fyddai'n cael effaith arwyddocaol ar amwynder defnyddiau tir, eiddo neu breswylwyr cyfagos, neu'r gymuned;**

e) **Mae'n cynnwys cymysgedd integredig o ddefnyddiau sy'n briodol i raddfa'r datblygiad;**

f) **Mae'n cadw, a lle bo'n briodol yn ymgorffori, nodweddion lleol pwysig (gan gynnwys adeiladau, mannau amwynder, mannau agored, coed, coetiroedd a pherthi) ac yn sicrhau y defnyddir tirweddu caled a meddal o ansawdd da ac yn manteisio ar gyfleoedd i wella bioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol;**

g) **Mae'n sicrhau ac yn creu lleoedd a mannau cyhoeddus deniadol a diogel, sy'n sicrhau diogelwch trwy egwyddorion 'dylunio i atal trosedd' Diogelu Drwy Ddylunio (gan gynnwys darparu gwyliadwriaeth naturiol, gweledegdd, amgylcheddau sydd wedi'u goleuo'n dda a mannau lle mae'r cyhoedd yn symud o gwmpas);**

h) **Mae mynedfa briodol yn bodoli neu gellir darparu un nad yw'n creu unrhyw bryderon ynghylch parcio neu ddiogelwch ar y ffyrdd ar y safle neu yn yr ardal;**

i) **Mae'n gwarchod a gwella treftadaeth dirweddol, drefweddol, hanesyddol a diwylliannol y sir ac nid oes unrhyw effeithiau andwyol ar y lleoliad neu gyfanrwydd yr amgylchedd hanesyddol;**

j) **Mae'n sicrhau neu'n darparu ar gyfer cynhyrchu, trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr brwnt mewn modd boddhaol;**

k) **Mae'n rhoi sylw i gynhyrchu, trin a gwaredu gwastraff;**

l) **Mae'n rhoi sylw i ddefnydd diogel, effeithiol ac effeithlon o'r rhwydwaith trafnidiaeth;**

m) **Mae'n darparu rhwydwaith integredig sy'n hybu buddiannau cerddwyr, beicwyr a thrafnidiaeth gyhoeddus sy'n sicrhau mynediad rhwydd i bawb;**

n) **Mae'n cynnwys, lle bo'n berthnasol, darpariaeth ar gyfer rheoli a dileu rhywogaethau goresgynnol yn briodol.**

Caiff cynigion eu hystyried hefyd yng ngoleuni polisïau a darpariaethau'r Cynllun hwn a pholisïau cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 7 a TAN12: Dylunio (2014)).

Polisi GP3 Rhwymedigaethau Cynllunio

Lle bo angen, bydd y Cyngor yn gofyn i ddatblygwyr gytuno i Rwymedigaethau Cynllunio (Cytundebau Adran 106), neu gyfrannu trwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol i sicrhau cyfraniadau i ariannu gwelliannau i seilwaith, cyfleusterau cymunedol a gwasanaethau eraill i fodloni gofynion sy'n deillio o ddatblygiadau newydd.

Lle bo'n berthnasol, gofynnir hefyd am gyfraniadau tuag at gynnal a chadw'r fath ddarpariaeth yn barhaus ac yn y dyfodol naill ai ar ffurf cymorth cychwynnol neu am byth.

Wrth roi'r polisi hwn ar waith caiff cynlluniau eu hasesu fesul achos.

Polisi EP1 Ansawdd ac Adnoddau Dŵr

Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau'n cael eu caniatáu os nad ydynt yn arwain at ddirywiad yr amgylchedd dwr a/neu ansawdd dyfroedd a reolir. Lle bo'n briodol, disgwylir i gynigion gyfrannu at welliannau i ansawdd dwr.

Bydd cyrsiau dwr yn cael eu diogelu trwy glustogfeydd/coridorau bioamrywiaeth/ ecolegol i warchod agweddau megis cynefinoedd a rhywogaethau glannau afonydd; ansawdd dwr a darparu ar gyfer capasiti gorlifdiroedd. Bydd cynigion yn cael eu caniatáu os nad ydynt yn cael effaith andwyol ar gadwraeth natur, pysgodfeydd, mynediad y cyhoedd neu ddefnyddiau hamdden dwr afonydd yn y sir.

Lle bynnag y bo modd bydd yn ofynnol i gynigion ddefnyddio adnoddau dŵr yn effeithlon